# Cynllun Eryri

*Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol ("Cynllun Eryri")*

*Cyfrol 2 – Atodiadau Adroddiad AoG*

# CYNNWYS

## Atodiadau

**<u>Atodiad A</u>**

Ymatebion yr Ymgynghoriad Cwmpasu

**<u>Atodiad B</u>**
Adolygiad o Gynlluniau, Polisïau a Rhaglenni

**<u>Atodiad C</u>**
Cydweddoldeb Amcanion yr AoG

**<u>Atodiad D</u>**
Cydweddoldeb Canlyniadau Cynllun Eryri ac Amcanion yr AoG

**<u>Atodiad E</u>**

Asesiad o’r Canlyniadau

**<u>Atodiad F</u>**

Asesiad Effeithiau Cronnus

## Byrfoddau

| | |
|---|---|
| Cynllun Eryri | Cynllun Rheoli Partneriaeth y Parc Cenedlaethol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| PC | Parc Cenedlaethol |
| CPRh | Cynllluniau Polisïau a Rhaglenni |
| RIGs | Safleoedd Daearegol a Geomorffolegol sy'n Rhanbarthol Bwysig |
| AoG | Arfarniad o Gynaliadwyedd |
| AAS | Asesiad Amgylcheddol Strategol |
| PCE | Parc Cenedlaethol Eryri |
| APCE | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |

## Atodiad A: Ymatebion yr Ymgynghoriad Cwmpasu

Nid oedd unrhyw ymatebion i'r Adroddiad Cwmpasu a gafodd ei ryddhau ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus o **9 Gorffennaf - 30 Medi 2018.**

Roedd nifer o heriau trosfwaol sy'n berthnasol i Arfarniad o Gynaliadwyedd/ Asesiad Amgylcheddol Strategol (AoG/AAS) eisoes wedi deillio o broses casglu data yr Ymgynghoriad Cychwynnol. Roedd hyn yn cynnwys bygythiad newid yn yr hinsawdd yn ogystal â mesurau lliniaru fel storio a dal carbon. Roedd yn cynnwys y pwysau ar lonyddwch a thirwedd Eryri a ddôi o du twristiaeth. Roedd y data hefyd yn tynnu sylw at y dirywiad parhaus mewn bioamrywiaeth. Her newydd a oedd yn dod i'r amlwg oedd effaith Brexit a'r angen i sicrhau gweithlu medrus ar ôl Brexit. Yn fwy na dim roedd yn tynnu sylw at yr effaith y gallai pob un o'r elfennau hyn ei chael ar y Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol. Hefyd amlygodd y broses lle'r oedd bylchau yn y data a lle'r oedd angen ymchwil a dealltwriaeth bellach.

Y pynciau a amlygwyd amlaf o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn gyffredinol oedd bod Eryri yn ardal arbennig a ddiogelir, a bod angen iddi gael ei diogelu a'i rheoli ar gyfer pawb. Yn benodol mewn perthynas â hyn: effaith amgylcheddol ymwelwyr; gwell diogelu a gwella cynefinoedd ac ecosystemau; effaith Brexit ar reoli tir; y cyfleoedd y gall amgylchedd Eryri eu darparu ar gyfer gwella lleisant pobl; datblygu marchnata / brand mwy clir a chyson ar gyfer Eryri; cefnogi pobl i addasu a datblygu i gwrdd â phroblemau a chyfleoedd yr economi wledig, gan gynnwys yr heriau sy'n deillio o allfudo pobl ifanc; tai fforddiadwy a swyddi o ansawdd. Yn gyffredinol, roedd natur y sylwadau'n adlewyrchu'r gwerth y mae amgylchedd naturiol yn ei roi i economi Eryri.

Cynorthwyodd y safbwyntiau a syniadau a rannwyd gyda ni drwy'r ymgynghoriad cychwynnol i ffurfio drafft cyntaf Cynllun Eryri. Unwyd y pwyntiau allweddol â'r 'Ffyrdd Ymlaen' a awgrymwyd yn y ddogfen ymgynghori. Drwy gyfres o weithdai, buom yn trafod ac yn esblygu'r rhain gyda phartneriaid allweddol a fydd yn ein helpu i gyflenwi Cynllun Eryri. Roedd hyn yn bwydo i mewn i'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu, a oedd yn ei dro yn bwydo i mewn i fersiwn gyfredol Cynllun Eryri.

Datblygwyd Cynllun Eryri yn gyfan gwbl drwy broses gydweithredol ac o ganlyniad i waith awduron partneriaethol, yn cael ei arwain gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Trwy Fforwm Eryri (cynrychiolwyr o 22 o sefydliadau, busnesau a chymunedau yn y Parc Cenedlaethol) dim ond ar ôl cael cytundeb llawn y cynhwyswyd y Canlyniadau, Polisïau a Chamau Gweithredu. Mae Fforwm Eryri hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan ein ymgyngoreion statudol CNC a Cadw, felly, ymgorfforwyd eu sylwadau ar y dulliau a ffefrir yn llawn mewn unrhyw ffurfio a mireinio polisi.

## Atodiad B: Adolygiad o CPRh'au Rhynglwadol Perthnasol

## Adolygiad o CPRh'au Rhynglwadol Perthnasol

<table>
<tr><th>Amcan, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i CRhPC a'r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cytundeb Paris o dan Gonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd (2015)<br>Er mwyn ymdrin â newid yn yr hinsawdd, mabwysiadodd gwledydd Gytundeb Paris yn y COP21 ym Mharis ar 12 Rhagfyr 2015. Daeth y Cytundeb i rym lai na blwyddyn yn ddiweddarach. Yn y cytundeb, cytunodd pob gwlad i weithio i gyfyngu ar gynnydd tymheredd byd-eang i fod yn is na 2 gradd Celsius, ac o ystyried y risgiau difrifol, i ymdrechu am 1.5 gradd Celsius.<br>Mae gweithredu Cytundeb Paris yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy, ac mae'n darparu map ar gyfer gweithredu ar yr hinsawdd a fydd yn lleihau allyriadau ac yn adeiladu gwytnwch yn yr hinsawdd.</td></tr>
<tr><td>O dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) mae Cymru wedi ymrwymo i leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050.</td><td>Sicrhau bod pob cyfle rhesymol yn cael ei symud ymlaen i annog datblygiad sy'n effeithlon o ran ynni a lleihau dibyniaeth ar geir preifat a lleihau cilometrau a deithiwyd.<br>Dylai'r AC hefyd gynnwys amcanion sy'n ymdrin â materion newid yn yr hinsawdd, er enghraifft yr angen i leihau'r defnydd o ynni a hefyd yr angen i addasu i'r effeithiau a'r risgiau sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Confensiwn Fframwaith y CU ar Newid yn yr Hinsawdd<br>Mae'r confensiwn yn gosod fframwaith cyffredinol ar gyfer ymdrechion rhynglywodraethol i fynd i'r afael â'r her a achosir gan newid yn yr hinsawdd. Mae'n cydnabod bod llawer o ffactorau yn effeithio ar y system hinsoddol ac mae'n system a rennir.</td></tr>
<tr><td>O dan y Confensiwn mae'n rhaid i lywodraethau:<br>▪ Casglu a rhannu gwybodaeth am allyriadau nwyon tŷ gwydr<br>▪ Lansio strategaethau cenedlaethol ar gyfer newid yn yr hinsawdd<br>▪ Cydweithredu wrth baratoi ar gyfer addasu effeithiau newid hinsawdd<br><br>Nid oes unrhyw dargedau penodol o berthnasedd.</td><td>Mae angen i'r cynllun sicrhau bod materion sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd yn cael eu hystyried wrth baratoi.<br>Mae angen i'r AC gynnwys amcanion sy'n mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, llifogydd a'r angen i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Dylai'r casglu data gwaelodlin hefyd fod â thystiolaeth sylfaenol yn ymwneud â'r materion hyn.</td></tr>
</table>

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb yr UE ar Ddiogelu Bywyd Gwyllt a Flora a Ffawna yn Ewrop (92/43/EEC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd yn ddarn pwysig o'r ddeddfwriaeth Ewropeaidd gyda'r nod o gyfrannu tuag at ddiogelu bioamrywiaeth – amrywiaeth bywyd – trwy ddiogelu cynefinoedd naturiol a phlanhigion ac anifeiliaid gwyllt. Gan gydnabod bod cynefinoedd bywyd gwyllt dan bwysau o gyfeiriad y gofynion cynyddol a wneir ar yr amgylchedd, mae'r Gyfarwyddeb yn darparu ar gyfer creu rhwydwaith o ardaloedd wedi eu diogelu ar draws yr Undeb Ewropeaidd, a'u galw yn safleoedd 'Natura 2000' . Bydd y rhwydwaith hon yn cynnwys SACs a SPAs, sydd, ar y tir, eisoes yn Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). | |
| Nod y Gyfarwyddeb yw cyfrannu tuag at sicrhau bioamrywiaeth trwy ddiogelu cynefinoedd naturiol a ffawna a fflora o fewn y Gymuned Ewropeaidd<br>Y targed i'r Aelod Wladwriaethau yw cymryd camau tuag at gynnal neu adfer cynefinoedd naturiol a rhywogaethau o bwysigrwydd cymunedol i gyflwr cadwraeth derbyniol. Golyga hyn ACA'au, AGA'au ac fel arfer derbynnir ei fod yn cynnwys safleoedd Ramsar. Trwy ymgymryd â'r mesurau hyn bydd yn ofynnol i'r Aelod Wladwriaethau gymryd i ystyriaeth y gofynion economaidd, cymdeithasol a diwylliannol a nodweddion rhanbarthol a lleol. | Cydnabod pwysigrwydd amcanion cadwraeth natur, a chymryd sylw gofalus o'r dynodiadau hyn wrth osod amcanion AC a diffinio opsiynau. Dylid rhoi sylw arbennig i gynefinoedd dynodedig a strwythurau cynefinoedd llinellog.<br>Cydnabod y bydd angen camau digolledu os bydd effeithiau cadwraeth negyddol yn digwydd ac os bydd raid i brosiect fynd yn ei flaen er mwyn iechyd a diogelwch dynol. Fodd bynnag, dylid darparu mesurau i gwrdd â hyn e.e. trwy'r broses leoli. Dylai dewis safleodd, amseru a mesurau amgen olygu bod y broses lliniaru yn broactif.<br>Bydd hefyd yn ofynnol llunio ARhC ar gyfer y ddau gynllun. Dylai hyn gychwyn cyn gynted ag sydd bosibl yn y broses gynllunio. |
| **Cyfarwyddeb y GE ar Ddiogelu Adar Gwyllt 79/409/EEC 1979**<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn berthnasol i ddiogelu pob rhywogaeth o adar sydd yn bodoli'n naturiol fel adar gwyllt o fewn tiriogaeth yr Aelod Wladwriaethau y mae'r cytundeb hwn yn berthnasol iddynt, gan gynnwys dynodiad rhai cynefinoedd fel Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig. Mae'n golygu gwarchod a rheoli'r rhywogaethau hyn ac yn amlinellu reolau rhag camfanteisio arnynt, ac hefyd atal llygriad/ dirywiad mewn cynefinoedd neu unrhyw aflonyddiad fydd yn effeithio ar yr adar. | |
| Mae prif ddarpariaethau'r Gyfarwyddeb yn cynnwys:<br>▪ Cynnal statws cadwraeth derbyniol i bob rhywogaeth adar gwyllt ar draws ardal eu dosbarthiad (Erthygl 2).<br>▪ Adnabod a dosbarthu Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig ar gyfer rhywogaethau prin neu fregus yn ogystal ag ar gyfer pob rhywogaetauh sy'n mudo'n rheolaidd, gan roi sylw arbennig i ddiogelu gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol (Erthygl 4). Ochr yn ochr â'r ACA'au, a ddynodwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd, mae AGA'au yn ffurfio rhwydwaith o'r holl ardaloedd gwarchodaeth yn Ewrop dan y teitl Natura 2000. | Dylai'r Cynlluniau ystyried effeithiau'r cynlluniau ar safleoedd gwarchodaeth a rhywogaethau adar yn Ewrop. Dylai'r cynllun fod yn rhagweithiol a cheisio osgoi unrhyw effaith ar y safleoedd hyn trwy ddilyn y broses leoli a dylent hefyd gynnwys polisïau gwarchod perthnasol.<br><br>Dylai cydlynu'r data sylfaenol a gyflawnir fel rhan o'r gyfarwyddeb gynnwys gwybodaeth ynghylch Safleoedd Gwarchodedig Ewropeaidd. Bydd hefyd yn ofynnol i'r amcanion AC gael eu datblygu gyda golwg ar ymateb i'r angen am warchod a gwella'r safleoedd hyn. |

<table>
<tr><th>Nod, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryria’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Y Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, Rio de Janeiro, 1992<br>Cytunodd mwyafrif helaeth llywodraethau’r byd ar y Confensiwn hwn ac mae’n gosod allan eu hymroddiad i gynnal bioamrywiaeth y byd a sicrhau datblygu economaidd mwy cynaliadwy.</td></tr>
<tr><td>Tair prif amcan y confensiwn yw:<br>▪ Gwarchod amrywiaeth biolegol<br>▪ Defnydd cynaliadwy o’i gydrannau<br>▪ Rhannu’r manteision a geir o ddefnyddio adnoddau genetig yn deg ac yn gyfiawn<br><br>Mae erthygl 6a yn mynnu bod pob Parti Contractio yn datblygu strategaethau, cynlluniau neu raglenni cenedlaethol ar gyfer cadwraeth a defnydd cynaliadwy o wastraff biolegol.</td><td>Dylai’r AC gynnwys amcanion yn y fframwaith fydd yn gwarchod ac yn gwella bioamrywiaeth.<br>Dylid mabwysiadu agwedd holistig sydd yn canolbwyntio ar warchod ecosystemau a’r cyswllt rhwng safleoedd e.e. coridorau bywyd gwyllt yn hytrach na rhywogaethau penodol yn unig.<br>Mae angen i’r cynllun gydymffurio gydag amcanion strategaethau cadwraeth cenedlaethol a’u dulliau gweithredu.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cyfarwyddeb 2000/60/EC Sefydlu Fframwaith ar gyfer Gweithredu Cymunedol ym Maes Polisi Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr)<br>Mae’r Gyfarwyddeb yn sefydlu agwedd integredig a newydd tuag at warchod, gwella a defnydd cynaliadwy o gyrff dŵr, cyflwyno trefn statudol o ddadansoddi a datblygu yn seiliedig ar fasnau afonydd.</td></tr>
<tr><td>Pwrpas y Gyfarwyddeb hon yw sefydlu fframwaith ar gyfer gwarchod dŵr wyneb mewndirol, dyfroedd trosiannol, dyfroedd arfordirol a dŵr daear, sydd yn:<br>▪ Atal dirywiad pellach ac yn gwarchod a gwella statws yr ecosystemau dyfrol ac, o ystyried eu hangen am ddŵr, ecosystemau tirol a gwlyptiroedd sydd yn uniongyrchol ddibynnol ar yr ecosystemau dyfrol.<br>▪ Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o ddŵr yn seiliedig ar warchodaeth hirdymor o’r adnoddau dŵr sydd ar gael<br>▪ Anelu at gynyddu gwarchodaeth a gwelliant ym maes amgylchedd dyfrol, inter alia, trwy fesurau penodol ar gyfer lleihau gollyngiadau. allyriadau a cholli sylweddau blaenoriaeth. Hefyd dwyn i ben ollyngiadau, allyriadau a cholli sylweddau peryglus<br>▪ Sicrhau gostyngiad cynyddol mewn llygru dŵr daear ac atal llygru pellach<br>▪ Cyfrannu tuag at atal efeithiau llifogydd a sychder</td><td>Mae’n ofynnol i’r Cynllun gydnabod pwysigrwydd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a’r modd y bydd y Cynllun yn dylanwadu ar gyflawni amcanion ac amcanion y Gyfarwyddeb.<br><br>Mae’n ofynnol i’r AC gynnwys amcanion perthnasol i warchod a gwella adnoddau dŵr, casglu data ynghylch bygythiadau allweddol sydd yn wynebu’r amgylchedd dŵr yn Eryri ac hefyd canfod cyfleoedd allweddol ar gyfer gwelliannau..</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Amcanion ar gyfer dŵr wyneb:<br>▪ Cyflawni statws ecolegol da a statws cemegol dŵr wyneb da erbyn 2015<br>▪ Cyflawni potensial ecolegol da a statws cemegol dŵr wyneb da ar gyfer cyrff dŵr sydd wedi eu haddasu'n sylweddol a chyrff dŵr artiffisial.<br>▪ Atal dirywiad o un dosbarth statws i un arall<br>▪ Cyflawni amcanion yn ymwneud â dŵr a safonau ar gyfer ardaloedd sy'n cael eu gwarchod<br><br>Amcanion ar gyfer dŵr daear:<br>▪ Cyflawni statws meintiol a chemegol erbyn 2015 (mae maint yn fater arwyddocaol ar gyfer dŵr daear – ychydig yn unig o ail-lwytho a geir i ddŵr daear bob blwyddyn ac mae angen yr ail-lwytho hwn ar gyfer ecosystemau sydd ynghlwm wrtho)<br>▪ Atal dirywiad o un dosbarth statws i un arall<br>▪ Cildroi unrhyw dueddiadau arwyddocaol o gynydd mewn crynodiadau llygredd ac atal neu osod terfyn ar gyflwyno llygredd i ddŵr daear<br>▪ Cyflawni amcanion a safonau yn ymwneud â dŵr mewn ardaloedd a warchodir | |

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Cyfarwyddebau Fframwaith Ansawdd Aer (96/62/EC) ac Is Gyfarwyddebau yr UE (1999/30/EC), (2000/69/EC), (2002/3/EC), (2004/107/EC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith yn sefydlu fframwaith lle bydd yr UE yn cytuno ar werthoedd terfyn ansawdd neu werthoedd arweiniol ar gyfer llygredd penodol mewn cyfres o Is Gyfarwyddebau. Bydd yr Is Gyfarwyddebau yn canolbwyntio ar gyfansoddion penodol yn cynnwys swlffwr deuocsid, nitrogen deuocsid, ocsidiau nitrogen, gronynnau, plwm, bensen, carbon monocsid ac oson). | |
| Amcanion:<br>▪ Derbyn digon o wybodaeth ynghylch ansawdd aer yr amgylchedd a sicrhau bod y wybodaeth yn cael ei gwneud yn wybyddus i'r cyhoedd<br>▪ Cynnal neu wella ansawdd yr aer<br><br>Mae'r holl dargedau ac amcanion perthnasol i allyriadau wedi eu mabwysiadu gan ddeddfwriaeth y DU. | Dylai'r AC gynnwys amcanion ar gyfer gwarchod a gwella ansawdd yr aer.<br>Dylai'r Cynllun roi blaenoriaeth i leihau'r angen am deithio a hyrwyddo dulliau mwy cynaliadwy o deithio.<br>Dylid rhoi ystyriaeth hefyd i'r modd y gall rheolaeth safle gyfrannu'n bositif tuag at wella ansawdd aer. |

<table>
<tr><th>Nod, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryria’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Datganiad Datblygu Cynaliadwy Johannesburg, 2002<br>Llofnodwyd y datganiad hwn yn yr Uwch Gynhadledd ar Ddatblygu Cynaliadwy. Yn yr Uwch Gynhadledd hon ail gadarnhawyd egwyddorion yr ymrwymiad rhyngwladol i ddatblygu cynaliadwy, 30 mlynedd wedi Uwch Gynhadledd Stockholm a deng mlynedd wedi Datganiad Stockholm yn 1992.</td></tr>
<tr><td>Yn yr Uwch Gynhadledd Byd hon, ail- gadarnhawyd egwyddorion yr ymrwymiad rhyngwladol i ddatblygu cynaliadwy. Y canlyniadau allweddol oedd Datganiad Johannesburg a datganiad o’r canlyniadau allweddol. Ceisiodd yr uwch gynhadledd:<br>▪ Gyflymu’r symudiad tuag at ddefnyddio a chynhyrchu cynaliadwy trwy gyfrwng fframwaith 10-mlynedd o raglenni gwaith.<br>▪ Gwyrdroi’r tueddiad o golli adnoddau naturiol<br>▪ Cynyddu ar frys ac yn sylweddol ygyfran fydeang o ynni adnewyddadwy.<br>▪ Lleihau graddfa colli bioamrywiaeth yn sylweddol erbyn 2010.<br>Amcanion<br>Er bod llawer o ganlyniadau’r Uwch Gynhadledd yn berthnasol i faterion bydeang, dylid cael ffocws lleol hefyd. Mae nifer o ymrwymiadau yn berthnasol i gynllunio defnydd tir, er enghraifft:<br>▪ Lleihau tlodi<br>▪ Cynyddu swm yr ynni adnewyddol a gynhyrchir<br>▪ Cynyddu lefelau effeithiolrwydd ynni ac adnoddau<br>▪ Cefnogi arloesedd a’r defnydd o ymarfer gorau<br><br>Dim targedau penodol sylweddol.</td><td>Mae’n ofynnol i’r Cynllun gynorthwyo i gyflawni’r ymrwymiadau sydd yn deillio o’r Uwch Gynhadledd.<br><br>Yn yr AC, rhaid ystyried amcanion a thargedau rhyngwladol sydd yn berthnasol i fioamrywiaeth a gwarchod yr amgylchedd wrth osod y llinell sylfaen ac wrth osod amcanion yr AC.</td></tr>
</table>

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff (91/156/EEC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Gwastraff yn mynnu bod Aelod Wladwriaethau'r UE yn sefydlu rhwydwaith o adnoddau gwaredu ac awdurdodau cymwys gyda chyfrifoldeb am gyflwyno awdurdodiadau a thrwyddedau gwastraff. Gall Aelod Wladwriaethau hefyd gyflwyno rheoliadau yn nodi'n benodol pa weithrediadau a busnesau adfer gwastraff sydd wedi eu heithrio o'r drefn trwyddedu a'r amodau ar gyfer yr eithriadau hynny. | |
| Un nod bwysig y Gyfarwyddeb yw sicrhau adfer neu waredu gwastraff heb beryglu iechyd pobl na'r amgylchedd. Mae'n mynnu bod Aelod Wladwriaethau yn:<br><br>▪ Rhoi blaenoriaeth i atal gwastraff ac annog ail-ddefnyddio ac adfer gwastraff<br>▪ Gwahardd gwaredu gwastraff heb reolaeth<br>▪ Sefydlu rhwydwaith integredig o osodiadau gwaredu<br>▪ Darparu cynlluniau rheoli gwastraff<br>▪ Sicrhau bod costau gwaredu yn cael ei ysgwyddo gan ddeiliad y gwastraff<br>▪ Sicrhau bod cludwyr gwastraff wedi eu cofrestru<br>▪ Sicrhau bod gwastraff yn cael ei adfer neu ei waredu heb beryglu iechyd dynol.<br><br>Mae gofynion cyffredinol y Gyfarwyddeb yn cael eu hategu gan Gyfarwyddebau eraill ar gyfer ffrydiau gwastraff eraill. | Dylai Parc Cenedlaethol Eryri ystyried yr effeithiau hyn wrth benderfynu ar leoliadau ar gyfer gwaredu neu brosesu gwastraff.<br><br>Mae'n ofynnol i'r AC hefyd gynnwys amcanion sydd yn ategu dibenion a gofynion y Gyfarwyddeb a dylai annog mabwysiadu arferion rheoli gwastraff cynaliadwy. |

<table>
<tr><th>Nod, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryria’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Amgylchedd 2010: Ein Dyfodol, Ein Dewis (Chweched Raglen Weithredu Amgylchedd yr UE)<br>Mae’r Rhaglen Weithredu Amgylchedd yn rhoi cyfarwyddyd strategol i bolisi amgylcheddol y Comisiwn dros y degawd nesaf wrth i’r Gymuned baratoi ar gyfer ehangu ei ffiniau.<br>Mae’r rhaglen newydd yn adnabod pedwar maes amgylcheddol i fynd i’r afael â hwy er mwyn sicrhau gwelliannau:<br>▪ Newid yn yr hinsawdd<br>▪ Natur a Bioamrywiaeth<br>▪ Amgylchedd ac Iechyd ac Ansawdd Bywyd<br>▪ Adnoddau Naturiol a Gwastraff</td></tr>
<tr><td>Mae’r cynllun gweithredu yn cydabod bod penderfyniadau cynllunio a rheoli defnydd tir yn yr Aelod Wladwriaethau yn gallu dylanwadu’n fawr ar yr amgylchedd, gan arwain at ddarnio tir cefn gwlad a chreu pwysedd mewn ardaloedd trefol ac ar yr arfordir. Mae hefyd yn cynnwys amcanion perthnasol i sefydlogi nwyon tŷgwydr, rhoi terfyn ar golli bioamrywiaeth, lleihau llygredd a’r defnydd o adnoddau. O dan fframwaith yr EAP, mae strategaethau thematig yn cael eu datblygu o ran:<br>▪ Ansawdd aer<br>▪ Gwarchod Pridd<br>▪ Defnydd Cynaliadwy o Blaladdwyr<br>▪ Amgylchedd Morol<br>▪ Atal Gwastraff ac Ailgylchu<br>▪ Defnydd Cynaliadwy o Adnoddau Naturiol<br>▪ Amgylchedd Trefol</td><td>Wrth ddatblygu polisïau, mae’n ofynnol i awdurdon cynlluniau fod yn ymwybodol o’r strategaethau hyn ac ystyried sut y gall eu cynllun ddylanwadu’n bositif ar faterion megis ansawdd aer, ansawdd yr amgylchedd trefol, gwledig a morol, defnydd o adnoddau naturiol ac atal gwastraff ac ailgylchu.<br><br>Mae’n ofynnol i amcanion yr AC hefyd ymdrin â’r materion a gaiff sylw yn y rhaglen weithredu.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Nod, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Confensiwn Aarhus<br>Mae Confensiwn Åarhus yn sefydlu nifer o hawliau sydd gan y cyhoedd (dinasyddion a’u cymdeithasau) o safbwynt yr amgylchedd. Mae disgwyl i awdurdodau cyhoeddus (ar lefelau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol) gyfrannu tuag at sicrhau bod yr hawliau hyn ddod yn effeithlon. Mae’r Confensiwn yn darparu ar gyfer:<br>▪ Hawl pawb i dderbyn gwybodaeth amgylcheddol sydd ym meddiant awdurdodau cyhoeddus. Gall hyn gynnwys gwybodaeth ar gyflwr yr amgylchedd, ond hefyd ar bolisïau neu fesurau a ddefnyddir, neu ar gyflwr iechyd a diogelwch dynol lle gall cyflwr yr amgylchedd effeithio arno. O dan y Confensiwn, mae’n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus fod yn weithredol a dosbarthu unrhyw wybodaeth amgylcheddol sydd yn eu meddiant.<br>▪ Yr hawl i gyfranogi yn gynnar iawn yn y broses o lunio penderfyniadau amgylcheddol. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus wneud trefniadau fydd yn galluogi dinasyddion a sefydliadau amgylcheddol i gyflwyno sylwadau, er enghraifft, ar gynigion am brosiectau fydd yn effeithio ar yr amgylchedd, neu gynlluniau a rhaglenni yn ymwneud â’r amgylchedd<br>▪ Yr hawl i herio, mewn llys barn, unrhyw benderfyniadau cyhoeddus a wnaed heb barchu’n gyffredinol y ddau hawl amgylcheddol a nodwyd uchod.</td></tr>
<tr><td>Mae’r Confensiwn yn sefydlu rhwymedigaeth mewn tri maes neu ‘bileri':<br>▪ Mynediad y cyhoedd i wybodaeth amgylcheddol<br>▪ Cyfranogiad cyhoeddus wrth lunio penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â’r amgylchedd<br>▪ Mynediad at gyfiawnder (h.y. adolygu achosion gweinyddol neu farnwrol) ar faterion amgylcheddol.</td><td>Mae ymgynghori cyhoeddus a mynediad at wybodaeth sydd yn cefnogi’r broses o lunio penderfyniadau yn hanfodol wrth ddarparu’r Cynllun hwn.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Confensiwn Ramsar ar Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol, yn enwedig cynefinoedd adar gwyllt (1971)<br>Cytundeb Rhynglywodraethol yw Confensiwn Ramsar, sydd yn darparu’r fframwaith ar gyfer gweithredu cenedlaethol a chydweithredu rhyngwladol ym maes cadwraeth a defnydd doeth o wlyptiroedd. Mae’r Confensiwn wedi esblygu i gydnabod gwlyptiroedd fel ecosystemau o bwys ar gyfer bioamrywiaeth a lles dynol.<br>Datganiad Cenhadaeth y Confensiwn yw ‘gwarchod gwlyptiroedd a defnydd doeth ohonynt trwy gamau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol a chydweithrediad rhyngwladol, fel cyfraniad tuag at gyflawni datblygu cynaliadwy ledled y byd’.</td></tr>
<tr><td>Amcanion y Confensiwn yw:<br>▪ Defnydd doeth o wlyptiroedd: i ysgogi a chynorthwyo’r holl Bartïon Contractio i ddatblygu, addasu a defnyddio’r offer a’r mesurau sy’n angenrheidiol ac yn addas er mwyn sicrhau defnydd doeth o wlyptiroedd o fewn eu tiriogaethau.</td><td>Rhaid rhaid i’r Cynllun gymryd i ystyriaeth y tri safle Ramsar o fewn Parc Cenedlaethol Eryri (Gwarchodfa Aber Dyfi, Llyn Idwal a Llyn Tegid) a sicrhau na fydd unrhyw ddatblygiad a fwriedir yn effeithio’n niweidiol arnynt.<br>Dylid chwilio am gyfleoedd i wella cyflwr y safleoedd. Mae angen i’r AC gynnwys amcanion i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| ▪ Gwlyptiroedd o bwysigrwydd rhyngwladol: symbylu a chefnogi pob Parti Contractio i wsefydlu Fframwaith Strategol a chanllawiau ar gyfer datblygu rhestr o Wlyptiroedd o Bwysigrwydd Rhyngwladol yn y dyfodol.<br>▪ Cydweithredu rhyngwladol trwy weithredu'n egnïol y Canllawiau ar gyfer cydweithredu rhynglwladol o dan Gonfensiwn Ramsar.<br>▪ Capasiti gweithrediad er mwyn sicrhau bod adnoddau addas ar gael ar gyfer gweithredu.<br>▪ Aelodaeth i weithio tuag at gynnwys yr holl wledydd o fewn y Confensiwn.<br><br>Nid oes unrhyw dargedau yn y Confensiwn. | |
| **Confensiwn Bonn ar Warchod Rhywogaethau Mudol, 1979**<br>Mae'r Confensiwn ar Warchod Rhywogaethau Mudol o Anifeiliaid Gwyllt yn anelu at ofalu am rywogaethau tirol, morol a hedegog mudol yn eu holl amrywiaeth. | |
| Bydd rhaid i bob parti sy'n rhan o'r cynllun:<br>▪ Hyrwyddo, cydweithio a chefnogi ymchwil perthnasol i rywogaethau mudol.<br>▪ Ymdrechu i ddarparu gwarchodaeth rhag blaen ar gyfer rhywogaethau mudol<br>▪ Ymdrechu i gasglu cytundebau sy'n ymrwymo i ddiogelu a rheoli y rhywogaethau mudol a nodir yn Atodiad II. | Dylai'r cynllun weithio tuag at ddiogelu a gwarchod anifeiliaid gwyllt a rhywogaethau mudol. Dylai'r polisïau yn y cynllun adlewyrchu'r ymrwymiadau a sefydlwyd gan y Confensiwn.<br>Mae'n ofynnol i'r AC gynnwys amcanion sydd yn gwarchod ac yn gwella adnoddau bioamrywiaeth. |
| **Confensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol (1979)**<br>Confensiwn Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol yn Ewrop yn cynnwys rhwymedigaethau i gadw fflora a ffawna gyda phwyslais arbennig ar rywogaethau sydd mewn perygl ac a ddiogelir a'u cynefinoedd.<br>Hefyd, mae'r Confensiwn yn canolbwyntio ar bwysigrwydd addysgu a dosbarthu gwybodaeth mewn perthynas â'r angen i ddiogelu rhywogaethau o fflora a ffawna gwyllt a'u cynefinoedd. | |
| Prif amcanion Confensiwn Bern yw:<br>▪ Hyrwyddo polisïau cenedlaethol ar gyfer diogelu fflora a ffawna gwyllt a'u cynefinoedd<br>▪ Integreiddio cadwraeth i mewn i bolisïau cenedlaethol yn ymwneud â chynllunio, datblygu a'r amgylchedd a<br>▪ Hyrwyddo'r defnydd o addysg a dosbarthu gwybodaeth | Mae'n ofynnol i'r Cynllun ystyried yr angen i ddiogelu cynefinoedd a rhywogaethau bywyd gwyllt ac mae'n ofynnol i leoliad safleoedd a'r polisïau adlewyrchu'r ymrwymiad tuag at ddiogelu a gwella bioamrywiaeth.<br><br>Mae'n ofynnol i'r AC gynnwys amcanion sydd yn diogelu ac yn gwella bioamrywiaeth. |

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb 2006/7/EC yn ymwneud â rheoli ansawdd dŵr ymdrochi ac yn disodli Cyfarwyddeb Cyngor 76/160/EEC**<br>Yn yr 1970au, penderfynodd Ewrop y dylid monitro a phrofi dŵr ymdrochi er mwyn diogelu ymdrochwyr rhag risg iechyd ac i gadw'r amgylchgedd yn rhydd o lygredd. | |
| Gosoda'r Gyfarwyddeb safonau ar gyfer monitro a dosbarthu ansawdd dŵr ymdrochi a darparu gwybodaeth i'r cyhoedd ynghylch ansawdd dŵr ymdrochi. | Mae'n ofynnol i'r Cynllun gydnabod pwysigrwydd diogelu adnoddau dŵr ac hefyd ei ansawdd.<br>Mae'n ofynnol hefyd i'r AAS/AC gynnwys amcanion ar gyfer diogelu a gwella adnoddau dŵr. |
| **Cyfarwyddeb Nitradau (91/676.EEC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn ymdrïn â llygredd dŵr a ddaw yn sgil nitradau a ddefnyddir mewn amaethyddiaeth. Mae'n ceisio lleihau neu atal llygredd dŵr a achosir gan ddefnydd a storio gwrtwith anorganig a thail ar dir fferm. Fe'i cynlluniwyd i ddiogelu cyflenwadau dŵr yfed ac i atal difrod ecolegol ehangach ar ffurf ewtroffeiddio dŵr croyw a dyfroedd morol yn gyffredinol. | |
| Bob pedair blynedd bydd yn rhaid i aelod-wladwriaethau gyflwyno adroddiad ar ddyfroedd sydd wedi eu llygru neu'n debygol o gael eu llygru a pharthau mewn perygl o gael eu llygru, a'r mesurau a'r camau a fabwysiadwyd i leihau llygredd oddi wrth nitradau.<br>Mae dyfroedd wedi eu llygru yn golygu:<br>▪ Dŵr wyneb croyw, yn enwedig y rhai a ddefnyddir neu a fwriedir ar gyfer dŵr yfed, sydd yn cynnwys neu a allai gynnwys dwyster mwy na'r hyn a nodir gan Gyfarwyddeb 75/440/EEC<br>▪ Dŵr daear sydd yn cynnwys neu a allai gynnwys mwy na 50 mg/l o nitradau<br>▪ Llynnoedd dŵr croyw naturiol, cyrff dŵr croyw eraill, aberoedd, dyfroedd arfordirol a dyfroedd morol a geir neu sy'n debygol o fod yn ewtroffig.<br><br>Nid oes unrhyw dargedau yn y Gyfarwyddeb. | Dylai cynlluniau a pholisïau newydd ymdrechu i leihau i'r eithaf lygredd oddi wrth nitradau, yn enwedig dŵr ffo oddi ar dir amaethyddol.<br>Dylai'r fframwaith AC gynnwys amcanion yn ymateb i'r angen i leihau llygredd i'r eithaf a sicrhau dulliau rheoli tir sydd yn gynaliadwy. |

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Strategaeth Pan-Ewropeaidd Amrywiaeth Biolegol a Thirwedd**<br>Pwrpas y strategaeth yw cynnal a gwella'r amrywiaeth biolegol a'r tirwedd ledled Ewrop erbyn 2015. | |
| Pedair amcan penodol y Strategaeth yw:<br><br>▪ Lleihau'n sylweddol y bygythiadau i amrywiaeth biolegol a thirwedd ledled Ewrop<br>▪ Cynyddu cydnerthedd biolegol a thirwedd Ewrop<br>▪ Cryfhau cydlyniaeth biolegol Ewrop yn gyffredinol<br>▪ Sicrhau bod y cyhoedd yn chwarae rhan flaenllaw yn y dasg o ddiogelu amrywiaeth fiolegol a thirwedd.<br><br>Ymateb Pan-Ewropeaidd yw'r strategaeth, yn cefnogi gweithrediad y Confensiwn Amrywiaeth Biolegol.<br>Nid oes unrhyw dargedau yn y Gyfarwyddeb. | Dylai'r cynllun ymdrechu i gefnogi amcanion cyffredinol y Strategaeth trwy roi pwyslais cryf ar yr angen i ddiogelu a gwella adnoddau biolegol a thirwedd Eryri<br><br>Dylai'r fframwaith AC hefyd gynnwys amcanion yn ymateb i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a'r tirwedd/trefwedd |
| **Confensiwn Tirwedd Ewrop**<br>Ar 19 Gorffennaf 2000, mabwysiadwyd Confensiwn Tirwedd Ewrop gan Bwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop, gan benderfynu ei agor i'w arwyddo gan y 41 Aelod-Wladwriaeth o Gyngor Ewrop. Mae Confensiwn Tirwedd Ewrop yn anelu at lenwi'r gwacter cyfreithiol a achoswyd gan absenoldeb – ar lefel Ewrop – unrhyw destun cyfeirio cyfansawdd a phenodol wedi ei neilltuo yn gyfangwbl i warchod, rheoli a gwella Tirweddiau Ewrop yn yr offer cyfreithiol rhyngwladol ar yr amgylchedd, cynllunio rhanbarthol a threftadaeth ddiwylliannol. | |
| Nod Confensiwn Tirwedd Ewrop yw hyrwyddo gwarchod, rheoli a chynllunio Tirwedd Ewrop, a sicrhau cydweithrediad dros Ewrop ar faterion yn ymwneud â'r tirwedd.<br>Mae'r Confensiwn yn rhan o waith Cyngor Ewrop ar dreftadaeth naturiol a diwylliannol, cynllunio gofodol, yr amgylchedd a hunan-lywodraeth lleol, ac yn sefydlu'r egwyddorion cyfreithiol cyffredinol a ddylai weithredu fel sail ar gyfer mabwysiadu polisïau tirwedd cenedlaethol ar faterion o'r fath.<br>Nid oes unrhyw dargedau perthnasol i'w hystyried. | Bydd y Cynllun yn cefnogi amcanion cyffredinol y Confensiwn ac yn cynnwys polisïau fydd yn gwarchod ansawdd a chymeriad y tirwedd/trefwedd. Mae'n ofynnol hefyd i'r AAS gynnwys amcanion sydd yn ymateb i'r angen i ddiogelu a gwella'r tirwedd. |

| Nod, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb i Hyrwyddo Trydan o Ynni Adnewyddadwy (2001/77/EC)**<br>Pwrpas y Gyfarwyddeb hon yw hyrwyddo cynnydd yng nghyfraniad ffynonellau ynni adnewyddadwy i gynhyrchu trydan ar gyfer y farchnad fewnol, a chreu sail ar gyfer fframwaith gymunedol yn y dyfodol. | |
| Rhaid i Aelod-Wladwriaethau gymryd camau addas i annog defnyddio mwy o drydan a gynhyrchwyd o ynni adnewyddadwy yn unol â'r targedau dangosol cenedlaethol. | Mae'n ofynnol i'r Cynllun gydnabod pwysigrwydd lleihau'r defnydd o ynni a hyrwyddo effeithiolrwydd ynni a'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy.<br><br>Dylai fframwaith yr AC hefyd gynnwys amcanion i hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy, ond bydd hefyd yn hanfodol canfod os gallai defnyddio technolegau o'r fath effeithio'n niweidiol ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol. |

| | |
|---|---|
| **Cyfarwyddeb Dŵr Yfed (98/83/EC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu safonau ar gyfer ystod o baramedrau ansawdd dŵr yfed. | |
| Mae'r Gyfarwyddeb yn cynnwys safonau sydd yn cynnwys terfynau cyfreithiol ar gyfer ansawdd dŵr yfed. | Mae'n ofynnol i'r Cynllun a'r fframwaith AC gydnabod yr angen am warchod a gwella ansawdd dŵr. |
| **Cyfarwyddeb Pysgod Dŵr Croyw (78/659/EEC)** | |
| Nod y Gyfarwyddeb hon yw diogelu dyfroedd croyw sydd angen eu gwarchod neu eu gwella er mwyn diogelu'r pysgod.<br>Mae'n ofynnol i aelod wladwriaethau ddynodi dyfroedd croyw sydd angen eu gwarchod neu eu gwella er mwyn diogelu bywyd pysgod a chynhychu cynlluniau gweithredu fydd yn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r safonau. Mae'r Gyfarwyddeb yn sefydlu 14 o baramedrau ffisegol a chemegol i'w defnyddio gan aelod wladwriaethau fel safonau canllaw ar gyfer dyfroedd salmonid and chyprinid.. | Dylai'r egwyddor o warchod ansawdd dŵr fod yn thema ganolog yn y cynllun. Dylai fframwaith yr AC gynnwys amcanion yn ymateb i'r angen am warchod ansawdd dŵr. |
| **Cyfarwyddeb Dŵr Daear (80/68/EEC)**<br>Mae'r Gyfarwyddeb hon yn gwahardd rhyddhau uniongyrchol neu anuniongyrchol i ddŵr daear o sylweddau Rhestr I ac yn cyfyngu ar ollyngiadau sylweddau Rhestr II er mwyn osgoi llygredd. | |
| Prif nod y Gyfarwyddeb, felly, yw gwarchod dŵr daear.<br>Nid oes unrhyw ddangosyddion na thargedau arwyddocaol yn y Gyfarwyddeb. | Dylai'r egwyddor o warchod ansawdd dŵr fod yn thema ganolog yn y cynllun gan fod hyn yn effeithio ar iechyd dynol ac ar fioamrywiaeth. Dylai fframwaith yr AC gynnwys amcanion a fydd yn mynd i'r afael â gwarchod ansawdd dŵr. |

## Adolygiad o CPRh'au Cenedlaethol Perthnasol

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Deddf Tai (Cymru) (2014)**<br>Blaenoriaethau'r ddeddf yw darparu rhagor o dai, tai o well ansawdd a gwasanaethau gwell ym maes tai. | |
| Elfennau allweddol y Ddeddf yw gwella rheolaeth yn y sector rhentu preifat, lleihau lefelau digartrefedd, gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr, cyflwyno rhenti safonol, taliadau gwasanaeth ac ansawdd llety i awdurdodau lleol, cynorthwyo darparu tai trwy gymdeithasau tai cydweithredol a chynyddu swm y dreth gyngor ar eiddo gwag hirdymor a rhai mathau o ail gartrefi. Blaenoriaethau'r ddeddf yw darparu rhagor o gartrefi, cartrefi o ansawdd gwell a gwasanaethau tai cysylltiedig gwell. | Mae'r nodau Cynaliadwyedd o fewn y fframwaith AC presennol yn cynnwys un i ddarparu tai i gwrdd ag angen lleol a hefyd un arall i hyrwyddo cymunedau iach a chynaliadwy.<br>Bydd y rhannau o'r Ddeddf y gall APCE gynorthwyo i'w cyflenwi yn cael eu gwneud trwy gefnogi'r polisïau presennol o fewn y CDLl, trwy ddarparu mwy o gartrefi lle bo angen. |
| **Safon Ansawdd Tai Cymru: Canllawiau Diwygiedig**<br>Codi safon tai a ddarperir gan landlordiaid cymdeithasol. | |
| Nod y canllawiau hyn yw sicrhau bod pob landlord preifat yn cwrdd â SATC erbyn 2020 ac yn cynnal y safonau hyn. | Goblygiadau hyn yw sicrhau bod yr holl dai newydd yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol. Bydd y CRhPC yn cefnogi'r polisïau o fewn y CDLl sy'n amlinellu ar hyn o bryd y dylai tai cymdeithasol fod o'r un safon, os nad yn well, na thai oyffelyb yn y farchnad agored. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Rhaglen Datblygu Cefn Gwlad 2014-2020**<br>Rhaglen buddsoddi blwyddyn yw hon yn cefnogi ystod eang a weithgareddau o fewn yr ardal wledig. | |
| Dylai'r gweithgareddau a gefnogir gan y rhaglen gyfrannu tuag at nifer o amcanion, yn cynnwys:<br>• gwneud amaethyddiaeth yn fwy cystadleuol<br>• sicrhau rheolaeth gynaliadwy ar adnoddau naturiol a chamau yn ymwneud â hinsawdd<br>• sicrhau datblygiad tiriogaethol cytbwys o safbwynt economi cefn gwlad a chymunedau gan gynnwys creu a chynnal swyddi.<br><br>Mae'n ofynnol i unrhyw weithgaredd sydd yn derbyn cefnogaeth gan y rhaglen gydymffurfio gydag un o 6 o flaenoriaethau datblygu cefn gwlad Ewrop | Dylai'r polisïau o fewn y CRhPC yn cefnogi arallgyfeirio ym maes amaeth a datblygu economi cefn gwlad. Mae ynddo hefyd bolisïau sydd yn berthnasol i newid hinsawdd ac ynni adnewyddadwy.<br><br>Bydd amcanion AC sydd yn berthnasol i warchod adnoddau naturiol a chreu cyfleoedd gwaith hefyd o gymorth i gyflawni amcanion y cynllun hwn. |
| **Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru**<br>Mae Fffamwaith Bioamrywiaeth Cymru yn egluro'r rolau, dyletswyddau a'r prosesau sydd yn hanfodol i warchod a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. | |
| Y nod ar gyfer y fframwaith yw adnabod y polisi ymarferol allweddol a'r gyrrwyr deddfwriaethol ar gyfer gwarchod, adfer a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru. | Dylai'r polisïau o fewn y CRhPC warchod a gwella bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol.<br>Dylai amcanion yr AC hefyd anelu at warchod a gwella bioamrywiaeth |
| **DfT (2004): Dyfodol Trafnidiaeth: Rhwydwaith hyd at 2030.**<br>Strategaeth hir dymor yw hon sydd yn edrych ar ffactorau a fydd yn penderfynu beth fydd anghenion trafnidiaeth dros y 25 mlynedd nesaf ac yn egluro sut y y mae'r DU yn bwriadu diwallu'r anghenion hynny mewn modd cynaliadwy. | |
| Mae'r strategaeth yn cynnwys tair thema: buddsoddiad parhaol dros y tymor hir, gwella rheolaeth trafnidiaeth a blaen gynllunio.<br>Mae'n disgrifio'r amcanion tymor hir fel targedau ar gyfer polisïau tymor byr. | Ble bo'n berthnasol, dylai Cynllun Eryriadlewyrchu amcanion trosfwaol a manwl y cynllun, o fewn ffranwaith y Strategaeth Trafnidiaeth Rhanbarthol.<br><br>Dylai fframwaith yr AC hefyd gynnwys amcanion sydd yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau cynaliadwy o deithio. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Defra (2005): Sicrhau'r Dyfodol: Strategaeth Datblygu Cynaliadwy'r Llywodraeth**<br>Dyma adolygiad o'r strategaeth datblygu cynaliadwy wreiddiol a gynhyrchwyd yn 1999 | |
| Amcanion newydd y strategaeth yw:<br>• Byw o fewn ffiniau amgylcheddol;<br>• Sicrhau cymdeithas gref, iach a chyfiawn<br>• Sicrhau economi gynaliadwy<br>• Hyrwyddo llywodraethu da<br>• Defnyddiuo gwyddoniaeth sain yn gyfrifol<br>Nod y strategaeth yw galluogi pobl i gwrdd â'u hanghenion a mwynhau gwell ansawdd bywyd heb beryglu bywyd cenedlaethau'r dyfodol. | Nodi cynnwys yr adolygiad a'i gynnwys yn y CRhPC.<br>Dylai'r AC hefyd gynnwys amcanion sydd yn cefnogi egwyddorion y strategaeth. Bydd y broses AC o gymorth i weithredu'r cynllun yn gynaliadwy a chaiff argymhellion eu gwneud i ddarparwyr cynlluniau ynghylch y modd y gellir gwella'r cynlluniau hynny. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Yr Her Ynni – Adroddiad Adolygiad Ynni 2006<br>Mae’r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau’r Adolygiad Ynni yn 2006, a gynhaliwyd er mwyn ystyried anghenion ynni.</td></tr>
<tr><td>Mae’n ofynnol canfod atebion cynaliadwy i’r prif heriau ynni canlynol:<br>• Mynd i’r afael â newid hinsawdd, ar y cyd gyda chenhedloedd eraill, wrth i allyriadau carbon bydeang barhau i gynyddu oherwydd gweithgaredd dynol.<br>• Darparu ynni diogel a glan am brisiau rhesymol, wrth i ni ddod yn gynyddol ddibynnol ar fewnforion i gyflawni ein anghenion ynni<br><br>Mae’r cynigion yn yr adroddiad hwn yn amlinellu’r modd y gellir goresgyn yr heriau hyn er mwyn sicrhau ffyniant y wlad ac iechyd y blaned yn y dyfodol.<br>Mae’r adroddiad yn cynnwys rhaglen weithredu ar gyfer gweithio ymhellach tuag at y amcanion ynni (a osodir allan ym Mhapur Gwyn 2003) hyd at 2020 a thu hwnt. Mae’n amlinellu’r camau sydd eu hangen nesaf er mwyn ymateb i’r heriau ynni, trwy wneud nifer o argymhellion ynghylch camau i’w cymryd yn awr ac yn y dyfodol.<br>Mae’r adolygiad yn tanlinellu’r ffaith nad oes unrhyw un ateb syml i’r heriau ynni y mae’r DU a gwledydd eraill yn eu wynebu, ond y bydd angen agwedd gytbwys a chymorth datblygiadau technolegol a dulliau effeithiol. Mae hefyd yn amlinellu fframwaith weithredu gatref a thramor er mwyn cryfhau gwarchodaeth ynni.<br>Mae’r adroddiad yn pwysleisio’r angen am ragor o fuddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy a chefnogaeth iddo er mwyn diogelu ynni a mynd i’r afael â newid hinsawdd. Mae’r ddogfen hon yn disgrifio sut y gellir gwneud hyn, ond yn nodi’n glir nad yw ynni gwynt, tonnau na haul (heb sôn am dechnolegau sefydledig) yn ddigon ar eu pennau eu hunain.<br>Mae’r DU wedi ymrwymo i nod Newid Hinsawdd Bydeang yr UE ar gyfer cyfyngu cynhesu bydeang i ddim mwy na 2 radd Selsiws uwchlaw tymhereddau cyn- ddiwydiannol. Mae hwn yn parhau yn nod dilys o safbwynt osgoi effeithiau newid hinsawdd bydeang peryglus.</td><td>Mae’n ofynnol i’r Cynllun roi sylw i’r materion a godwyd a sicrhau bod y cynlluniau yn hyrwyddo’r angen am gynyddu effeithiolrwydd ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>Dylai fframwaith yr AC gynnwys amcanion fydd yn mynd i’r afael â’r angen i leihau allyriadau carbon deuocsid, yn hyrwyddo effeithiolrwydd ynni ac yn hyrwyddo’r defnydd o adnoddau ynni adnewyddadwy.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Papur Gwyn Ynni: Cwrdd â'r Her Ynni (2007)**<br>Mae'r Papur Gwyn hwn yn amlinellu fframwaith ar gyfer camau fydd yn ymateb i heriau hir dymor newid hinsawdd ac yn sicrhau ynni glân a fforddiadwy**.** | |
| Fel y nodir yn 'Yr Her Ynni' a gyhoeddwyd yn 2006, mae'r cyd-destun lle mae'r llywodraeth yn ceisio cwrdd â'r heriau hyn yn esblygu, yn arbennig:<br><br>Tystiolaeth gynyddol o effaith newid hinsawdd a chydnabyddiaeth ryngwladol o'r angen am ymdrech galed yn fydeang i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, yn enwedig carbon deuocsid, prisiau tanwydd ffosil yn codi a rhyddhad arafach na'r disgwyl o farchnaodedd ynni'r UE ar adeg pan fo'r DU yn dibynnu fwyfwy ar ynni wedi ei fewnforio. Ymwybyddiaeth uwch o'r peryglon sydd yn codi wrth i gronfeydd olew a nwy y byd gael eu cyfyngu i nifer llai o ranbarthau ar draws y byd, sef y dwyrain Canol a Gogledd Affrica, a Rwsia ac Asia Ganol. Yn y DU bydd angen i gwmnïau wneud buddsoddiad newydd sylweddol mewn gorsafoedd pŵer, y grid trydan a seilwaith nwy.<br><br>Mae'r papur hwn yn amlinellu strategaeth ynni domestig a rhyngwladol y Llywodraeth (yn seiliedig ar bolisïau sy'n bodoli) er mwyn ymateb i'r amgylchiadau newidiol hyn, ymateb i'r heriau ynni hirdymor a chyflawni pedair nod y polisi ynni [fel y'u nodir ym Mhapur Gwyn Ynni 2003]. Mae'n nodi sut y mae'r Llywodraeth yn gweithredu'r mesurau yn yr Adroddiad adolygu Ynni 2006 ac hefyd mesurau eraill a gyhoeddwyd ers hynny (e.e. yng Nghyllideb 2007). | Rhaid i'r cynllun roi sylw i'r materion pwysig a godwyd yn y Papur Gwyn a sicrhau bod y cynlluniau yn hyrwyddo'r angen am gynyddu effeithiolrwydd ynni a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.<br>Dylai fframwaith yr AC gynnwys amcanion sydd yn ymateb i'r angen am leihau allyriadau carbon deuocsid, hyrwyddo effeithiolrwydd ynni a hyrwyddo'r defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Strategaeth Ansawdd Aer: Gweithio Gyda'n Gilydd tuag at Aer Glân**<br>Mae'r strategaeth hon yn disgrifio'r cynlluniau a luniwyd gan y Llywodraeth a'r gweinyddiaethau datganoledig er mwyn gwella a gwarchod ansawdd aer yr amgylchedd yn y DU yn y tymor canolig, gwarchod iechyd pobl a'r amgylchedd heb i hyn olygu costau annerbyniol i'r economi na'r gymdeithas. | |
| Mae'r strategaeth hon, sydd wedi ei diweddaru, yn darparu gweledigaeth hirdymor, glir ar gyfer gwella ansawdd aer yn y DU. Mae'n cynnig dewisiadau ar gyfer ystyriaethau pellach er mwyn lleihau risg i iechyd a'r amgylchedd oddi wrth lygredd aer. Mae'n amlinellu'r ffordd ymlaen ar gyfer gweithio a chynllunio ar faterion ansawdd aer, manylion y amcanion sydd i'w cyflawni ac yn argymell mesurau i'w hystyried ymhellach er mwyn hwyluso'r dasg o gyrraedd yr amcanion.<br>Mae'r adolygiad hwn o'r Strategaeth Ansawdd Aer flaenorol (2003) yn argymell mesurau polisï newydd posibl ar gyfer gwella ansawdd aer, ac mae'n archwilio'u costau a'u manteision, yr effaith ar ormodiant amcanion y strategaeth ansawdd aer, yr effaith ar ecosystemau ac hefyd yr effeithiau ansoddol.<br>Mae'r strategaeth hon yn amlinellu agenda ar gyfer y tymor hirach, yn enwedig yr angen i ganfod mwy am y modd y mae llygredd aer yn effeithio ar iechyd pobl ac ar yr amgylchedd, er mwyn hyrwyddo dewisiadau a phenderfyniadau polisi yn y dyfodol. Mae'n sefydlu fframwaith ar gyfer sicrhau aer glanach, a fydd yn arwain at fanteision i iechyd ac i gymdeithas yn gyffredinol. | Mae'n ofynnol i'r Cynllun weithio tuag at wella ansawdd aer a gellid cyflawni hyn trwy leihau dibyniaeth ar y car preifat a hyrwyddo gwelliannau i drafnidiaeth cyhoeddus..<br>Dylai'r AC gynnwys amcanion ar gyfer gwarchod a gwella ansawdd aer. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC |
|---|---|
| **Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y’i diwygiwyd)**<br>Mae’r ddeddf yn gweithredu’r Confensiwn ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol 'Confensiwn Bern') a Chyfarwyddebau Ewrop ar Gadwraeth Adar Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol. Mae’r ddeddf yn ymwneud â gwarchod bywyd gwyllt a’u cynefinoedd (cefn gwlad, Parciau Cenedlaethol ac ardaloedd dynodedig a warchodir). | |
| Mae’r ddeddf yn mynd i’r afael â materion gwarchod rhywogaethau a cholli cynefinoedd trwy amlinellu’r warchodaeth sydd ar gael i anifeiliaid a phlanhigion gwyllt ym Mhrydain.<br>Nid oes unrhyw ddangosyddion na thargedau. | Mae rhyngweithio sylweddol rhwng defnydd tir a bioamrywiaeth. Mae’n ofynnol i’r Cynllun ystyried effaith dyraniad a pholisïau ar fioamrywiaeth.. Dylai fframwaith yr AAS/AC gynnwys amcanion sydd yn ymateb i warchod a gwella bioamrywiaeth. |
| **Deddf yr Amgylchedd 1995**<br>Mae Rhan III o’r Ddeddf yn gwneud newidiadau sylfaenol i’r drefn o ofalu am, a rheoli, Parciau Cenedlaethol trwy weithredu cyfres o argymhellion ac adroddiadau. Caiff dibenion Parciau Cenedlaethol eu hail fformiwleiddio, mae gan y llywodraeth a chyrff cyhoeddus eraill ddyletswydd i roi sylw i ddibenion y Parciau. Caiff Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eu rhyddhau oddi wrth reolaeth awdurdodau lleol ac mewn rhai amgylchiadau gall Awdurdod Parc newydd ddod yr unig awdurdod cynllunio. | |
| Mae’r ddeddf yn ail-ddiffinio Pwrpasau Cenedlaethol ac mae adrannau eraill yn amlinellu gyfrifoldebau a dyletswyddau Awdurdodau Parciau Canedlaethol e.e.<br>61. Pwrpasau’r Parciau Cenedlaethol.<br>62. Dyletswydd cyrff a phersonau penodol i roi sylw i’r dibenion a ddynodwyd ar gyfer y Parciau Cenedlaethol.<br>63. Sefydlu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol.<br>64. Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru<br><br>Swyddogaethau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol<br>66. Cynlluniau Rheoli Parciau Cenedlaethol.<br>67. Awdurdod Parc Cenedlaethol i fod yn awdurdod cynllunio lleol.<br>68. Swyddogaethau awdurdod cynllunio o dan ddeddfwriaeth Parciau Cenedlaethol ayb.<br>69. Swyddogaethau awdurdod cynllunio o dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. | Paratoir y CRhPC o fewn y fframwaith ddeddfwraethol a ddarperir gan y Ddeddf. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (CROW)**<br>Mae CROW yn ymestyn hawl y cyhoedd i fwynhau cefn gwlad tra hefyd yn darparu gwarchodaeth ar gyfer tirfeddianwyr a deiliaid. Mae'n creu hawl statudol newydd i wlad agored a thir comin sydd wedi ei gofrestru, yn moderneiddio'r drefn hawl tramwy, yn rhoi mwy o warchodaeth i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), yn darparu gwell trefniadau rheoli ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), ac yn cryfhau deddfwriaeth gorfodaeth bywyd gwyllt. | |
| Mae'r Ddeddf yn pwysleisio hawl mynediad y cyhoedd i gefn gwlad agored a thir comin ac yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). | Dylai'r cynllun roi sylw i'r materion hyn sy'n berthnasol i amcanion yr AC. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryria’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Newid yn yr hinsawdd: Rhaglen y DU.<br>Mae rhaglen y DU yn gyfraniad sylweddol tuag at yr ymateb bydeang i newid hinsawdd. Mae’n gosod allan becyn strategol a phell gyrhaeddol o bolisïau a mesurau ar draws holl sectorau’r economi, er mwyn cyflawni’r targedau a osodwyd.</td></tr>
<tr><td>Er bod Rhaglen Newid Hinsawdd 2000 wedi bod o gymorth i roi’r DU ar y trywydd iawn, a thu draw i hynny, tuag at gyflawni ymrwymiad lleihau nwyon tŷ gwydr Kyoto, mae rhaglen 2006 yn cynnwys ymrwymiadau pellach er mwyn cyflawni’r nod cenedlaethol o leihau carbon deuocsid o 20 y cant islaw lefelau 1990 erbyn 2010 ac, yn y tymor hir, lleihau allyriadau hyd at 60 y cant erbyn 2050. Felly mae’r rhaglen yn amlinellu y Strategaeth ar gyfer gweithredu yn rhyngwladol yn ogystal ag yn genedlaethol.<br>Sail y Rhaglen yw’r egwyddorion canlynol:<ul><li>Yr angen i fabwysiadu agwedd gytbwys gyda phob sector a phob rhan o’r DU yn chwarae eu rhan</li><li>Yr angen i warchod – a gwella lle bo hynny’n bosibl – elfen gystadleuol y DU, annog arloesedd technolegol, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a lleihau niwed i iechyd</li><li>Yr angen i ffocysu ar ddewisiadau polisi hyblyg a chost effeithiol a fydd yn gweithio gyda’i gilydd i ffurfio pecyn integredig</li><li>Yr angen i gymryd golwg hirdymor, edrych ar dargedau y tu hwnt i gyfnod ymrwymiad cyntaf Kyoto a thrafod yr angen am i’r DU addasu i effeithiau newid hinsawdd</li><li>Yr angen i adolygu’r Rhaglen yn rheolaidd</li></ul>Mae’r rhaglen yn sefydlu’r mesurau hyn er mwyn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr mewn chwe phrif sector: cyflenwad ynni, busnes, trafnidiaeth, domestig, amaethyddiaeth, coedwigaeth a rheoli tir, a llywodraeth cyhoeddus a lleol.<br>Mae’r cynnydd tuag at gyflawni amcanion newid hinsawdd y DU ac yn fydeang wedi ei fonitro (ac yn parhau i gael ei fonitro) a’i adolygu.<br>Mae Rhaglen Newid Hinsawdd y DU: adroddiad blynyddol 2007 i’r senedd yn disgrifio’r camau a gymerwyd i gyflawni’r amcanion hirdymor ac yn dangos y cynnydd yn erbyn yr amcanion. O ystyried canlyniadau allyriadau yr UE o dan y Cynllun Masnachu, roedd allyriadau nwyon tŷ gwydr yn 2005 yn ïs o 19.1 y cant na lefelau’r flwyddyn sylfaen ac allyriadau carbon deuocsid yn 2006 tua 11 y cant yn is na lefelau 1990.</td><td>Dylai’r cynllun roi sylw i newid hinsawdd wrth iddo ddatblygu opsiynau polisi.<br><br>Dylai’r AC gynnwys amcanion ar gyfer lleihau allyriadau ac ymdopi gydag effeithiau newid hinsawdd. Gallai’r cynllun gyfrannu tuag at dargedau lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, er enghraifft trwy annog effeithiolrwydd diwydiannol, caffael ynni adnewyddadwy, a thrafnidiaeth fwy cynaliadwy ar gyfer deunyddiau a phobl.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Cynllun Gofodol Cymru: Pobl, Lleoedd, Dyfodol** | |
| Bydd y Cynllun yn:<br>• darparu fframwaith eglur ar gyfer camau cydweithredol yn y dyfodol rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'i asiantaethau, llywodraeth leol, y sectorau preifat a gwirfoddol er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau sydd yn berthnasol yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.<br>• dylanwadu ar leoliad gwariant gan Lywodraeth y Cynulliad a'i asiantaethau<br>• dylanwadu ar gymysgedd a chydbwysedd rhaglenni asiantaethau darparu y sector preifat yn y gwahanol ardaloedd.<br>• gosod y cyd-destun ar gyfer cynllunio lleol a chymunedol<br>• darparu sail tystiolaeth eglur ar gyfer y sectorau cyhoeddus, preifat, a gwirfoddol i ddatblygu polisïau ac i weithredu<br>Mae'r Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Cynllun wedi ei strwythuro yn unol â phum thema arweiniol: Adeiladu Cymunedau Cynaliadwy, Hyrwyddo Economi Gynaliadwy, Gwerthfawrogi ein Amgylchedd, Sefydlu Hygyrchedd Cynaliadwy a Pharchu Nodweddion Unigryw. Ar gyfer pob un o'r themâu hyn, mae'r cynllun yn sefydlu amcanion, yn egluro sut y byddant yn cyflawni gweithgareddau presennol ac yn disgrifio pa waith ychwanegol sydd ei angen ar lefel genedlaethol.<br>Mae'r cynllun hefyd yn darparu gweledigaeth, cyfres o gynigion a chamau i'w cymryd ar lefel ardal ac ar lefel cenedlaethol ar gyfer pob un o'r meysydd strategol. | Rhaid i'r Cynllun roi sylw i'r themâu a'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol. Hefyd mae'n rhaid i'r Cynllun gymryd i ystyriaeth y weledigaeth, y cynigion a'r gweithredu ar gyfer rhanbarthau Gogledd Orllewin Cymru a Chanolbarth Cymru. |
| **Deddf Llywodraeth Leol 2000 Rhan 1 – Strategaethau Cymunedol**<br>Mae Rhan 1 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn gosod dyletswydd ar gynghorau sir a chynghorau bwrdeistrefol sirol yng Nghymru i ddarparu 'strategaethau cymunedol' ar gyfer hyrwyddo neu wella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol eu hardaloedd a chyfrannu tuag at ddatblygiad cynaliadwy yn y DU. | |

| | |
|---|---|
| Mae'r broses Strategaeth Gymunedol yn dwyn ynghŷd ystod eang o elfennau sydd yn cynrychioli gwahanol agweddau ar fywyd cymunedol. Mae'n anelu at gytuno ar gamau blaenoriaeth er mwyn:<br>• Gwella ansawdd bywyd i bobl leol<br>• Cyfrannu tuag at ddatblygu'r ardal yn gynaliadwy<br>• Darparu mecanwaith ar gyfer trafodaeth leol ar anghenion,cyfleoedd a gobeithion<br>• Darparu ffocws ar gyfer gweithio ar y cyd.<br>• Cynorthwyo'r Cyngor i ddatblygu polisïau corfforaethol. | Bydd strategaethau cymunedol Gwynedd a Chonwy yn darparu fframwaith strategol ar gyfer y cynllun. Bydd hyn yn cynyddu'r integreiddiad rhwng gweithgareddau'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac o gymorth i osgoi dyblygu.<br>Dylid defnyddio'r strategaethau cymunedol hefyd i hyrwyddo datblygiad fframwaith yr AC. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Cymru – Gwlad Well**<br>Mae'r ddogfen hon yn amlinellu agenda strategol llywodraeth Cynulliad Cymru. | |
| Gweledigaeth yw hon ar gyfer dyfodol cynaliadwy i Gymru, lle bydd gwelliannau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau newid positif:<br>• Hyrwyddo economi amrywiol, gystadleuol fydd yn sicrhau gwerth ychwanegol uchel a sgiliau ac addysg o ansawdd uchel, a lleihau i'r eithaf unrhyw ofynion ar yr amgylchedd<br>• Gweithredu ym maes cyfiawnder cymdeithasol trwy fynd i'r afael â thlodi a iechyd gwael, a darparu modd i bobl a chymunedau eu helpu eu hunain a thorri'n rhydd oddi wrth fagl tlodi<br>• O safbwynt ein amgylchedd adeiledig a naturiol, sicrhau camau fydd yn cynyddu balchder yn y gymuned, yn cefnogi bioamrywiaeth, yn hyrwyddo gwaith yn lleol ac yn cynorthwyo i leihau i'r eithaf y gwastraff a gynhyrchir, a'r defnydd o ynni a thrafnidiaeth.<br>• Cryfhau hunaniaeth ddiwylliannol Cymru a chynorthwyo i greu gwlad ddwyieithog<br>• Sicrhau bod ein plant a chenedlaethau'r dyfodol yn mwynhau gwell cyfleodd mewn bywyd ac nad ydynt yn etifeddu problemau a adawyd gennym ni.<br>• Cefnogi pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol<br>• Hyrwyddo bod yn agored, partneriaeth a chyfranogiad | Rhaid i'r Cynllun roi sylw i'r themâu a'r amcanion sydd wedi eu cynnwys yn y fframwaith cenedlaethol. Rhaid i'r cynllun hefyd gymryd i ystyriaeth y weledigaeth, y cynigion a'r gweithredu ar gyfer ardaloedd strategol Gogledd Orllewin Cymru – Eryri a Môn a Chanolbarth Cymru..<br><br>Mae'r ddogfen yn rhoi pwyslais ar warchod yr amgylchedd adeiledig a naturiol a chryfhau hunaniaeth diwylliannol. Dylai'r broses AC – trwy osod y cynllun yn erbyn cyfres o amcanion – amlygu unrhyw ddiffygion yn yr ardaloedd hyn a gwneud argymhellion i luniwyr cynlluniau er mwyn gwella'r cynllun. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Doeth Ynghylch Gwastraff: Strategaeth Gwastraff Genedlaethol ar gyfer Cymru<br>Dyma strategaeth sydd wedi ei dylunio i symud Cymru o sefyllfa lle mae’n or-ddibynnol ar dirlenwi i sefyllfa lle bydd yn fodel ar gyfer rheoli gwastraff yn gynaliadwy. Bydd yn cyflawni hyn trwy fabwysiadu a gweithredu agwedd gynaliadwy ac integredig tuag at gynhyrchu, rheoli a rheoleiddio gwastraff (gan gynnwys sbwriel a gwaredu anghyfreithlon) fydd yn lleihau i’r eithaf y gwastraff a gynhyrchir a’i effaith ar yr amgylchedd, yn cynyddu i’r eithaf wneud defnydd o wastraff na ellir ei osgoi fel adnodd, ac yn lleihau i’r eithaf lle bo hynny’n ymarferol y defnydd o ynni o wastraff a thirlenwi.</td></tr>
<tr><td>Mae prif amcanion y strategaeth wastraff yn ddeublyg:<ul><li>Gwneud Cymru yn fodel ar gyfer rheoli gwastraff cynaliadwy trwy fabwysiadu a gweithredu agwedd gynaliadwy ac integredig tuag at gynhyrchu, rheoli a rheoleiddio gwastraff ( gan gynnwys sbwriel a gwaredu anghyfreithlon) fydd yn lleihau i’r eithaf y gwastraff a gynhyrchir a’i effaith ar yr amgylchedd, yn cynyddu i’r eithaf wneud defnydd o wastraff na ellir ei osgoi fel adnodd, ac yn lleihau i’r eithaf lle bo hynny’n ymarferol y defnydd o ynni o wastraff a thirlenwi</li><li>Cydymffurio gyda gofynion cyfarwyddebau perthnasol y Cyngor Ewropeaidd a deddfwriaeth y DU (gweler Rhan Dau, Atodiadau 1 a 2).</li></ul>Prif dargedau penodol Cymru - y targedau lle mae gan Lywodraeth y Cynulliad a’i bartneriaid allweddol (e.e. llywodraeth leol) ddylanwad uniongyrchol ar y canlyniadau yw’r canlynol:<ol><li>Cyrff cyhoeddus i leihau’r sgil-gynhyrchion gwastraff a gynhyrchir ganddynt hwy eu hunain:<ul><li>Erbyn 2010, cyflawni lleihâd yn y gwastraff a gynhyrchir hyd at o leiaf 10% o ffigwr 1998</li></ul></li><li>Lleiafswm targedau ailgylchu a chompostio i bob awdurdod lleol ei gyrraedd:<ul><li>Erbyn 2006/07 cyflawni ailgylchu/compostio o leiaf 25% o wastraff bwrdeistrefol gyda lleiafswm o 10% compostio (gyda chompost yn deilliaw o ddeunyddiau wedi eu gwahanu yn unig) a 10% ailgylchu</li><li>Erbyn 2009/10 ac wedi hynny, cyflawni o leiaf 40% ailgylchu/compostio gyda lleiafswm o 15% compostio ((gyda chompost yn deilliaw o ddeunyddiau wedi eu gwahanu yn unig) a 15% ailgylchu</li></ul></li><li>Gwahanu gwastraff domestig peryglus yn well</li></ol></td><td>Bydd yn hanfodol i Cynllun Eryrigefnogi Polisïau’r CDLl o ddarparu cefnogaeth ddigonol ar gyfer lleihau i’r eithaf y gwastraff a gynhyrchir, adnoddau casglu, trin a gwaredu gwastraff, ailgylchu, compostio ac adfer.<br><br>Dylai fframwaith yr AC gynnwys amcanion sy’n mynd i’r afael â’r angen i leihau’r gwastraff a gynhyrchir a hyrwyddo technegau rheoli gwastraff.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) (2006)** | |
| Mae Adran 40(1) yn gosod dyletswydd i warchod bioamrywiaeth:<br>"Mae'n ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus, wrth gyflawni ei ddyletswyddau, roi sylw i ddibenion gwarchod bioamrywiaeth cyn belled â'i fod yn gyson gyda chyflawni'r dyletswyddau hynny yn gywir,"<br>Mae Adran 40(3) yn y Ddeddf yn egluro bod:<br>Gwarchod bioamrywiaeth yn cynnwys - o safbwynt unrhyw organeb fyw neu fath o gynefin - adfer neu wella poblogaeth neu gynefin".<br><br>Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i bob awdurdod lleol ac mae'n mynd tu hwnt iddim ond gwarchod yr hyn sydd yno'n barod, gan gefnogi a chymryd camau a all hefyd adfer neu wella bioamrywiaeth. | Dylai'r Cynllun anelu at gynnal a gwella holl gynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth Cymru sydd wedi eu rhestru yn Adran 42 o'r ddeddf. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013**<br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wella cyfleusterau a llwybrau i gerddwyr a beicwyr yn barhaus ac i baratoi mapiau sy'n nodi llwybrau presennol a photensial posibl i'w defnyddio. Mae'r Ddeddf hefyd yn mynnu bod cynlluniau ffyrdd newydd (gan gynnwys cynlluniau gwella ffyrdd) yn ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ar y cam dylunio. | |
| Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth:<br>• i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau o lwybrau teithio gweithredol presennol a chyfleusterau cysylltiedig yn ardal awdurdod lleol (y map llwybrau presennol) ac i gyflwyno'r mapiau hyn i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo o fewn amserlen ragnodedig;<br>• • i awdurdodau lleol gynhyrchu mapiau o'r llwybrau teithio gweithredol newydd a gwell sydd eu hangen i greu rhwydweithiau integredig ar gyfer teithio gweithredol mewn ardal awdurdod lleol (y map rhwydwaith integredig) ac i gyflwyno'r mapiau hyn i Weinidogion Cymru i'w cymeradwyo o fewn amserlen ragnodedig;<br>• • ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol roi sylw i fapiau rhwydwaith integredig wrth baratoi polisïau trafnidiaeth ac i sicrhau bod llwybrau teithio gweithredol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell;<br>• • ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol adrodd ar deithio llesol yng Nghymru;<br>• • ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol, wrth gyflawni rhai swyddogaethau o dan Ddeddf Priffyrdd 1980, gymryd camau rhesymol i wella'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer cerddwyr a beicwyr ac i roi sylw i anghenion cerddwyr a beicwyr wrth ymarfer rhai eraill swyddogaethau;<br>• • ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau lleol arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf hon er mwyn hyrwyddo teithiau teithio gweithredol a sicrhau llwybrau teithio gweithredol a chyfleusterau cysylltiedig newydd a gwell.<br>Drwy'r ddeddf, dylai Awdurdodau Lleol ystyried ymgynghori ag APC'au ar fapiau llwybrau. | Dylai'r Cynllun ddarparu'r fframwaith ar gyfer galluogi pobl i gerdded, beicio a theithio mwy at ddibenion trafnidiaeth a hamdden.<br><br>Dylai'r AC hefyd gynnwys ac amcanion sy'n ymdrin â hyrwyddo dulliau trafnidiaeth mwy cynaliadwy. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Polisi Cynllunio Cymru Argraffiad 8 (Ionawr 2016)**<br>Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisïau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cynulliad Cymru. Fe'i ategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT) a chylchlythyrau Chynulliad Cenedlaethol Cymru / Swyddfa Gymreig. Mae'r PCC, NCT a'r cylchlythyrau gyda'i gilydd yn cynnwys polisi cynllunio cenedlaethol y dylid eu cymryd i ystyriaeth gan awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru yn ystod paratoi'r cynllun. Yn ogystal, mae PCC yn nodi ymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy. | |
| Nodir nifer o amcanion polisi allweddol:<br>• Hybu patrymau anheddu effeithlon o ran adnoddau<br>• Lleihau'r galw am deithio<br>• Cyfrannu at ddiogelu hinsawdd / hyrwyddo ynni adnewyddadwy<br>• Lleihau'r perygl o lifogydd<br>• Hyrwyddo cymunedau cynaliadwy<br>• Cyfrannu at ddiogelu a gwella'r amgylchedd, er mwyn gwella ansawdd bywyd, a diogelu ecosystemau lleol a byd-eang. Yn arbennig, dylai cynllunio geisio sicrhau nad yw'r datblygiad yn cynhyrchu effeithiau niweidiol anghildroadwy ar yr amgylchedd naturiol. Cadwraeth a gwella ardaloedd a ddynodwyd yn statudol ac o gefn gwlad a'r arfordir sydd heb ei ddatblygu; cadwraeth bioamrywiaeth, cynefinoedd, a thirweddau; cadwraeth y tir amaethyddol gorau a mwyaf amlddefnydd; a gwella'r amgylchedd trefol, mae angen hyrwyddo y rhain i gyd.<br>• Helpu i sicrhau cadwraeth yr amgylchedd hanesyddol a threftadaeth ddiwylliannol<br>• Lleihau'r defnydd o adnoddau anadnewyddadwy a gwneud y mwyaf o effeithlonrwydd yn eu defnydd | Dylai'r Cynllun gefnogi'r CDLl trwy gyfrannu at yr amcanion hyn trwy hyrwyddo ynni adnewyddadwy, effeithlonrwydd adnoddau uwch a diogelu'r amgylchedd adeiledig a naturiol.<br><br>Dylai'r AC hefyd gynnwys amcanion sy'n ategu'r rhai a sefydlwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Bydd yn gwneud y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl mwy am y tymor hir, gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a'i gilydd, edrych tuag at atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cydgysylltiedig.</td></tr>
<tr><td>I wneud yn siŵr ein bod ni i gyd yn gweithio tuag at yr un weledigaeth, mae'r Ddeddf yn sefydlu saith nod llesiant.<ul><li>Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang</li><li>Cymru ffyniannus</li><li>Cymru gydnerth</li><li>Cymru iachach</li><li>Cymru sy’n fwy cyfartal</li><li>Cymru o gymunedau cydlynus</li><li>Cymru o ddiwylliant bywiog lle mae’r iaith Gymraeg yn ffynnu.</li></ul></td><td>Mae Datblygu Cynaliadwy yn ganolog i'r CRhPC. Bydd y mwyafrif helaeth o'r amcanion yn sicrhau bod y CRhPC yn cyfrannu at amcanion a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Strategaeth Twristiaeth Arfordirol (2008)**<br>Datblygu potensial twristiaeth yr arfordir mewn modd cynaliadwy tra'n ymateb i anghenion marchnadoedd twf. Nod y Strategaeth Twristiaeth Arfordirol yw nodi ffordd glir ymlaen ar gyfer datblygu Twristiaeth Arfordirol, sy'n gwireddu ac yn adeiladu ar botensial economaidd arfordir Cymru wrth barchu ei ansawdd amgylcheddol a chydnabod pwysigrwydd sicrhau budd cymunedol. | |
| Mae'r strategaeth yn nodi ffordd glir ymlaen ar gyfer datblygu twristiaeth arfordirol. Mae'r ffordd ymlaen yn adeiladu ar botensial economaidd arfordir Cymru wrth barchu ei hansawdd amgylcheddol. Hefyd cydnabyddir pwysigrwydd sicrhau budd cymunedol.<br><br>Mae'r strategaeth yn darparu canllawiau gofodol ar gyfer dyrannu cyllid yn y dyfodol i gefnogi twristiaeth arfordirol yn rhanbarthau Cymru trwy'r Cynllun Gofodol.<br>Amcanion y strategaeth yw:<br>• sicrhau bod twristiaeth gynaliadwy yn gwneud cyfraniad cynyddol i economi leol cymunedau arfordirol<br>• gwella ansawdd y profiad i ymwelwyr<br>• cyflawni ymagwedd integredig at ddatblygu a rheoli twristiaeth arfordirol<br>• diogelu a gwarchod yr amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol fel Allwedd<br>• adnoddau ar gyfer twristiaeth arfordirol | Dylai'r Cynllun geisio cyfrannu at amcanion y strategaeth trwy gynnwys polisïau priodol sy'n galluogi datblygiad y diwydiant twristiaeth tra'n diogelu ansawdd yr amgylchedd. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Twristiaeth Gynaliadwy: Fframwaith ar gyfer Cymru (2007) Llywodraeth Cymru**<br>Diben y fframwaith twristiaeth gynaliadwy yw amlinellu'r hyn y mae datblygu cynaliadwy yn ei olygu i'r sector twristiaeth yng Nghymru.<br>Partneriaeth ar gyfer Twf: Strategaeth ar gyfer Twristiaeth 2013-2020 (Llywodraeth Cymru) | |
| Y weledigaeth ar gyfer Twristiaeth Gynaliadwy yw<br>'Mae Cymru'n cael ei chydnabod yn rhyngwladol fel un o brif gyrchfannau twristiaeth cynaliadwy sy'n hybu ffyniant economaidd lleol, yn cefnogi lles cymunedol ac ymgysylltedd, yn gwella ei hamgylchedd a'i diwylliant naturiol ac yn darparu profiad o ansawdd uchel i ymwelwyr.'<br><br>Mae pedwar nod allweddol yn cefnogi'r weledigaeth: -<br><br>• Hyrwyddo ffyniant lleol<br>• Cefnogi llesiant cymunedol a chyfranogiad<br>• Lleihau'r effaith twristiaeth ar yr amgylchedd<br>• Diogelu a rhoi gwerth i dreftadaeth a diwylliant naturiol. | Dylai Polisïau CRhPC hyrwyddo twristiaeth gynaliadwy ac adlewyrchu dymuniad Llywodraeth Cymru ar gyfer twf yn y sector twristiaeth o ansawdd uchel. |
| **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016**<br>Nod y ddeddf hon yw darparu ar gyfer cynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru ar lefel genedlaethol a lleol. | |
| Mae'r ddeddf yn cynnwys y gofyniad i **Awdurdodau** cyhoeddus gynnal a gwella bioamrywiaeth.<br>Mae gofyniad i CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru) gynhyrchu Cynlluniau Ardal a fydd yn ystyriaeth berthnasol allweddol ar gyfer paratoi'r CDLl. | Os yw'r cynlluniau ardal wedi cael eu cynhyrchu mewn pryd ar gyfer creu'r CRhPC, yna bydd angen ystyried eu cynnwys.<br>Dylai polisïau o fewn y CRhPC warchod a gwella bioamrywiaeth.<br>Dylai Amcanion o fewn fframwaith AC hefyd ddiogelu gweledigaeth bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Polisi Adnoddau Naturiol Cymru**<br>Y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP) yw ail gynnyrch statudol Deddf yr Amgylchedd (Cymru). | |
| Ffocws yr NRP yw rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy, er mwyn gwneud y mwyaf o'u cyfraniad tuag at gyflawni nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r polisi'n nodi tair Blaenoriaeth Genedlaethol. Y rhain yw:<br><br>• Darparu atebion yn seiliedig ar natur,<br>• Cynyddu ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd adnoddau<br>• Cymryd ymagwedd seiliedig ar le | Bydd y Polisi Adnoddau Naturiol yn ganolog i'r CRhPC. Bydd angen i lawer o'r amcanion sicrhau bod y CRhPC yn cyfrannu at amcanion a gofynion y Polisi Adnoddau Naturiol, ynghyd a ystyried y berthynas rhwng y Cynllun a'r Datganiadau Ardal. |
| **Coetiroedd i Gymru**<br>Nod y strategaeth yw cyflawni ar bedair thema strategol, ymateb i newid yn yr hinsawdd, coetiroedd i bobl, sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig ac ansawdd amgylcheddol | |
| Ymateb i newid yn yr hinsawdd – ymdopi â newid yn yr hinsawdd, ac helpu i ostwng ein hôl troed carbon<br><br>• Coetiroedd i bobl - gwasanaethu anghenion lleol ar gyfer iechyd, addysg, a swyddi<br><br>• Sector coedwigaeth cystadleuol ac integredig, diwydiannau â sgiliau da yn cyflenwi cynnyrch adnewyddadwy o Gymru<br><br>• Ansawdd amgylcheddol - gwneud cyfraniad cadarnhaol at fioamrywiaeth, tirweddau a threftadaeth, a lleihau pwysau amgylcheddol eraill | Dylai polisïau o fewn y CRhPC helpu i gyflawni'r rhain trwy gefnogi ceisiadau am ynni adnewyddadwy ar raddfa fach, gan warchod tirwedd a bioamrywiaeth Eryri a chefnogi menter wledig i weithwyr coedwigaeth lle bo hynny'n briodol a chefnogi arallgyfeirio gwledig ar gyfer cyflogaeth newydd.<br><br>Hefyd bydd yr amcanion AC yn helpu i gyflawni amcanion y strategaeth hon. |
| **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**<br>Mae'r strategaeth hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob sefydliad ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy. | |

| | |
|---|---|
| Mae pum prif ddangosydd a gweledigaethau ar gyfer pob dangosydd o fewn y strategaeth i gyflenwi datblygu cynaliadwy, ac mae'r rhain fel a ganlyn:<br>Defnyddio adnoddau'n gynaliadwy - o fewn oes cenhedlaeth, rydym am weld Cymru yn defnyddio dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r ddaear<br>Llesiant Cymru - Cymru ddwyieithog gyfiawn, deg, lle mae dinasyddion o bob oedran a chefndir yn cael eu grymuso i benderfynu ar natur eu bywydau eu hunain, llywio eu cymunedau a chyflawni eu llawn botensial<br>Economi Gynaliadwy - Economi gadarn a chynaliadwy i Gymru sy'n gallu datblygu wrth sefydlu, ac yna lleihau ei defnydd o adnoddau naturiol a lleihau ei chyfraniad at newid hinsawdd<br>Cymdeithas Gynaliadwy - cymunedau deniadol diogel, cynaliadwy lle mae pobl yn byw ac yn gweithio, yn cael mynediad at wasanaethau a mwynhau iechyd da ac yn gallu chwarae eu rolau llawn fel dinasyddion<br>Cynnal yr amgylchedd - mae gan Gymru ecosystemau iach, sy'n gweithio, sy'n fiolegol amrywiol ac yn gynhyrchiol, ac sy'n cael eu rheoli mewn modd cynaliadwy. | Dylai'r AC a CRhPC gynnwys amcanion a pholisïau yn y drefn honno i gynorthwyo chyda gyflwyno'r strategaeth hon.<br><br>Mae'r CDLl wedi ei danategu gan ddatblygiad cynaliadwy er mwyn sicrhau bod anghenion yr amgylchedd, yr economi a'r gymuned gymdeithasol yn cael eu diwallu yn awr ac i'r dyfodol. Mae'r CDLl yn cynnwys polisïau sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd a bioamrywiaeth, darparu tai a chefnogi cymunedau lleol, yr iaith Gymraeg a chyfleusterau. Ceir hefyd bolisïau sy'n hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy a chefnogi'r economi leol trwy gefnogi datblygiadau cyflogaeth newydd.<br><br>Bydd amcanion AC yn ategu'r strategaeth hon, gan gynnwys rhai sy'n cefnogi bioamrywiaeth, hyrwyddo cymunedau iach a chynaliadwy a chefnogi'r economi leol. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol.**<br>Gweledigaeth y strategaeth yw sicrhau bod y gwasanaethau cymdeithasol yn gryf, yn hygyrch, ac yn atebol, mewn tiwn gyda dinasyddion ac anghenion cymunedau ac yn hyrwyddo annibyniaeth, cynhwysiant cymdeithasol, hawliau dinasyddion a chanlyniadau da. | |
| Mae'r strategaeth wedi ei hanelu at Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am gynllunio strategol, trefnu darpariaeth gwasanaethau i gwrdd ag anghenion, ar gyfer ymgymryd ag asesiadau a rheoli gofal ar gyfer y rhai sydd angen cymorth a chefnogaeth a diogelu oedolion sy'n agored i niwed.<br>Caiff hyn ei wneud drwy sicrhau<br>• Bod defnyddwyr gwasanaethau a theuluoedd yn cael rôl weithredol<br>• Cydweithio rhwng awdurdodau lleol a sefydliadau partner<br>• Targedu systemau cefnogi a modelau gofal<br>• Roi pwyslais cryf ar gyfranogiad cynnar ac ail-alluogi | Er mai dim ond Awdurdod cynllunio yw'r Parc Cenedlaethol, gall gefnogi'r strategaeth hon drwy weithio gyda sefydliadau partner lle bo angen.<br><br>Dylai polisïau o fewn y CRhPC gefnogi darparu cyfleusterau cymunedol yn enwedig lle mae cyfleuster hanfodol i gefnogi'r gymuned leol. |
| **Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn yng Nghymru (2013-2023)**<br>Nod y strategaeth hon yw sicrhau y gall pobl hŷn gymryd rhan lawn mewn cymdeithas a bod y bobl hŷn yng Nghymru gyda'rr adnoddau cymdeithasol, amgylcheddol ac ariannol sydd eu hangen arnynt i ymdrin â'r cyfleoedd a'r heriau maent yn eu hwynebu. | |
| Erbyn 2023 mae'r strategaeth yn anelu at gyflawni'r canlynol.<br>Mannau a rennir - pobl hŷn yn gweld mannau cyhoeddus yn groesawgar, diogel a hygyrch<br>Byw yn y gymuned - pobl hŷn yn gallu cymryd rhan ac yn cyfrannu yn eu cymunedau<br>Tai - pobl hŷn yn cael mynediad at dai a gwasanaethau sy'n cefnogi eu | Dylai Cynllun Eryrigynnwys polisïau sy'n cefnogi darpariaeth cyfleusterau cymunedol ble y dangoswyd bod angen. Petai'r angen ar gyfer pobl hŷn, bydd hyn yn cynorthwyo cyflenwi'r strategaeth hon. |
| **Deddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016**<br>Pwrpas y ddeddf hon yw cynnig gwarchodaeth / amddiffyniad mwy effeithiol i adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig, gan wella mecanweithiau presennol ar gyfer rheolaeth gynaliadwy yr amgylchedd hanesyddol a chyflwyno mwy o dryloywder ac atebolrwydd mewn penderfyniadau a wnaed ar yr amgylchedd hanesyddol. | |
| Mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer nifer o fesurau newydd i ddiogelu'r Amgylchedd Hanesyddol, gan gynnwys<br>Galluogi awdurdodau i weithredu'n gyflym os yw adeilad rhestredig dan fygythiad oddi wrth gwaith di-awdurdod.<br>Creu cofrestr statudol o barciau a gerddi hanesyddol Cymru<br>Gwneud strwythurau presennol ar gyfer dynodi asedau hanesyddol o bwysigrwydd cenedlaethol yn fwy agored a thryloyw. | Dylai polisïau CRhPC helpu i amddiffyn y dirwedd hanesyddol, asedau treftadaeth a threftadaeth ddiwylliannol,<br><br>O fewn yr AC, mae amcan i werthfawrogi a diogelu a gwella'r amgylchedd hanesyddol yn cynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol.<br>Hefyd dylai fod gwerth amcanion a gwarchod cymeriad y treflun. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC |
|---|---|
| **TAN 5: Cadwraeth Natur a Chynllunio**<br>Mae TAN5 yn rhoi arweiniad ar sut y dylai awdurdodau lleol integreiddio materion cadwraeth natur mewn cynlluniau datblygu ac wrth asesu cynigion datblygu.. | |
| Er mwyn sicrhau bod cynlluniau datblygu yn seiliedig ar wybodaeth ddigonol am ddaeareg, tirffurf, cynefinoedd a rhywogaethau, dylai materion cadwraeth natur gael eu cynnwys mewn arolygon o ardaloedd awdurdod lleol. Dylai polisïau cadwraeth natur mewn cynlluniau datblygu nodi meini prawf yn erbyn beth y bydd y datblygiad yn cael ei farnu, gan ystyried arwyddocâd cymharol y dynodiadau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol.<br>Dylai awdurdod cynllunio lleol sy'n bwriadu caniatáu datblygiad a fyddai'n cael effaith andwyol ar AGA neu ACA roi gwybod i'r Ysgrifennydd Gwladol o flaen llaw.<br>Mae'n rhaid i awdurdodau sicrhau nad yw datblygiad yn groes i'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd. | Dylai cadwraeth natur fod wrth wraidd y cynllun yn enwedig o ystyried amcanion a dibenion statudol yr awdurdod. Dylai'r cynllun geisio cefnogi’r CDLl i osgoi effeithiau andwyol ar gadwraeth natur.<br><br>Dylai’r fframwaith AC gynnwys amcanion yn ymwneud â gwarchod a gwella bioamrywiaeth. |
| **TAN 8: Ynni Adnewyddadwy**<br>Annog y defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy fel amnewid ar gyfer ffynonellau ynni cyfyngedig gwerthfawr. | |
| Lle mae awdurdodau lleol yn fodlon na all amod (ar gyfer ynni adnewyddadwy) gael ei osod, efallai y byddant yn ceisio mynd i mewn i rwymedigaeth cynllunio gyda datblygwr.<br>Lle bo effaith prosiectau ynni adnewyddadwy ar yr amgylchedd lleol yn arbennig o ansicr, efallai y bydd awdurdodau cynllunio lleol yn ystyried rhoi caniatâd cynllunio dros dro.<br>Felly, mae Asesiad Amgylcheddol (AA) yn angenrheidiol pe bai cynnig datblygu penodol yn debygol o gael effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd o ganlyniad i'w natur, maint neu leoliad.. | Efallai y bydd potensial i fanteisio ar y defnydd o ffynonellau ynni adnewyddadwy yn ardaloedd y cynllun.<br><br>Dylai'r cynllun annog y defnydd o ynni adnewyddadwy lle bo'n briodol, gan ystyried goblygiadau amgylcheddol posibl datblygiadau o'r fath.<br><br>Dylai'r AC hefyd gynnwys amcan effeithlonrwydd ynni hyrwyddo a defnyddio ffynonellau ynni adnewyddadwy fel y bo'n briodol. Er y cydnabyddir y gall ar adegau fod gwrthdaro rhwng rhai technolegau ynni adnewyddadwy a'u cydweddoldeb â'r amgylchedd naturiol. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">TAN 10 Gorchmynion Cadw Coed<br>Mae awdurdodau cynllunio lleol yn cael eu grymuso, er lles amwynderau, i warchod coed a choetiroedd trwy wneud Gorchmynion Cadw Coed (GCC). Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i wneud darpariaeth ddigonol lle y bo'n briodol ar gyfer cadw a phlannu coed wrth roi caniatâd cynllunio drwy osod amodau a / neu wneud Gorchmynion Cadw Coed (GCC).</td></tr>
<tr><td>Prif effaith GCC yw gwahardd torri, dadwreiddio, topio, tocio, difrodi neu ddinistrio coeden neu goed yn fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol. Nid yw'r termau 'coed' a 'coetir' ‘coeden’ yn cael eu diffinio yn y Ddeddf, ac nid yw’n cyfyngu ar y defnydd o GCCau i goed o leiafswm o faint, ond at ddibenion y Ddeddf mae'r Uchel Lys wedi cynnal bod "coeden" yn unrhyw beth a byddai un yn galw coeden fel arfer.<br>Mae GCC sy'n gwahardd gwneud gwaith ar goed neu dorri coed o fewn ardal coetir hefyd, ym marn yr Ysgrifennydd Gwladol, yn amddiffyn coed sy'n cael eu plannu neu dyfu yn naturiol yn yr ardal honno ar ôl i'r GCC gael ei wneud.</td><td>Er nad yw TANau ond yn ymwneud â chynlluniau datblygu, dylai Cynllun Eryrianelu at gefnogi’r CDLl i ystyried natur sensitif yr ardaloedd a gwmpesir gan y TAN ac yn ceisio osgoi/ lleihau/ lliniaru effeithiau ar y meysydd hyn.<br><br>Dylai'r AC hefyd geisio gwarchod ardaloedd o goetir.</td></tr>
<tr><td colspan="2">TAN 12: Dyluniad<br>Mae dyluniad y datblygiad yn yr amgylchedd yn arwyddocaol i ansawdd ein bywydau ac yn ffactor pwysig wrth gynnal delwedd bositif i Gymru. Mae gan dylunio da y potensial i gynorthwyo cynaladwyedd amgylcheddol, twf economaidd, a chynhwysiant cymdeithasol.</td></tr>
<tr><td>Dylai materion dylunio gael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddatblygu. Mae angen i'r system gynllunio fod yn rhagweithiol o ran codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd materion dylunio.<br>Mae'r amcanion allweddol yn cynnwys:<ul><li>Cyflawni datrysiadau dylunio cynaliadwy</li><li>Cynnal neu wella cymeriad</li><li>Hyrwyddo dylunio arloesol</li><li>Hyrwyddo perthynas lwyddiannus rhwng gofod cyhoeddus a phreifat</li><li>Hyrwyddo ansawdd uchel yn y byd cyhoeddus</li><li>Sicrhau mynediad rhwydd i bawb</li><li>Hyrwyddo datblygiad darllenadwy</li><li>Dylunio ar gyfer newid</li><li>Hyrwyddo ansawdd, dewis ac amrywiaeth</li></ul></td><td>Dylai'r cynllun gefnogi'r CDLl trwy gynnwys polisïau sy'n hyrwyddo lefelau dylunio o safon uchel.<br><br>Dylai'r broses AC bwysleisio'r angen i wneud y gorau o fanteision y broses ddylunio drwy geisio gwneud defnydd doeth o adnoddau naturiol, defnyddio ffynonellau ynni cynaliadwy, lleihau cynhyrchu gwastraff a'r angen i fabwysiadu egwyddorion dylunio cynhwysol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">TAN 13: Twristiaeth<br>Mae'r TAN yn amlinellu canllawiau penodol ynghylch llety i dwristiaid</td></tr>
<tr><td>Er na ellir ei ystyried fel un categori neu ar wahân o ddefnydd tir, dylai'r materion y mae'n eu codi gael sylw wrth baratoi neu adolygu cynlluniau datblygu, a gall ymddangos mewn penderfyniadau rheoli datblygiad.<br>Gall cynlluniau datblygu ddarparu canllawiau ar gyfleoedd ar gyfer raddfa fwy neu brosiectau arloesol, cyfleusterau priodol ar gyfer cefn gwlad neu ardaloedd dynodedig a darparu cyfleusterau mewn trefi hanesyddol a chyrchfannau glan môr.</td><td>Dylai Cynllun Eryrigefnogi'r CDLl o ran arweiniad ar gyfleoedd i ddatblygu twristiaeth. Fodd bynnag, bydd yn hanfodol sicrhau bod unrhyw ddatblygiad twristiaeth yn briodol i'r amgylchedd adeiledig a naturiol.</td></tr>
<tr><td colspan="2">TAN 14 Cynllunio Arfordirol<br>Mae'r nodyn cyngor hwn yn nodi sut y dylai materion arfordirol gael eu hystyried wrth gynllunio defnydd tir..</td></tr>
<tr><td>Mae'r TAN yn tynnu sylw at y ffaith y gall datblygiad ar y tir gael effaith ar y môr, er enghraifft ar Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.<br>Bydd ystyriaethau cynllunio yn amrywio yn dibynnu ar natur yr arfordir, ond mae yna nifer o faterion penodol mewn perthynas â'r parth arfordirol y dylai'r system gynllunio fynd i'r afael â nhw:<ul><li>Cynigion ar gyfer Datblygiad: natur cyflwr y tir a'r prosesau ffisegol, a'r angen posibl am waith adfer ac amddiffyn; effeithiau tebygol ar brosesau ffisegol a biolegol ar hyd yr arfordir; yr effeithiau posibl ar adnoddau mwynol, dŵr a chadwraeth; yn ogystal â thir amaethyddol o ansawdd uchel; ac unrhyw effaith weledol bosibl o'r tir a'r môr.</li><li>Natur a thirwedd cadwraeth: rôl prosesau ffisegol a biolegol wrth greu, cynnal a newid nodweddion natur a gwerth cadwraeth y tirlun; effeithiau polisïau natur a chadwraeth tirwedd statudol ac eraill yn y parth arfordirol, nad yw pob amser yn cydgyffwrdd â marc distyll; a phwysigrwydd cyfanrwydd a nodweddion arbennig Gwarchodfeydd Natur Morol, ACA ymgeisydd morol ac ACA arfordirol, AGA'oedd, a safleoedd Ramsar. Dylai Cyfarwyddebau CE sy'n berthnasol i gynllunio yn y parth arfordirol bob amser gael eu cadw mewn cof.</li></ul></td><td>Dylai Cynllun Eryrigefnogi'r CDLl i ystyried natur sensitif yr amgylchedd arfordirol ac osgoi/ lleihau/ lliniaru effeithiau ar ddarnau o arfordir a ddiogelir.<br><br>Dylai'r AAS/ AC gynnwys nifer o amcanion a fydd yn gwarchod yr amgylchedd arfordirol. Bydd y broses o gasglu data sylfaenol hefyd yn casglu gwybodaeth ddigonol am sensitifrwydd y parth arfordirol.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Bydd angen cynnwys rhai ystyriaethau arfordir-benodol yn y fframwaith cynllunio gan awdurdodau cynllunio lleol. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Ar y lan: y risgiau i unrhyw fath o ddatblygiad sy'n gysylltiedig â'r prosesau ffisegol ac amodau tir problemol; yr effaith debygol o unrhyw ddatblygiad ar y prosesau a nodweddion geomorffolegol, ac ar nodweddion pwysig y parthau arfordirol ac is-arfordirol;<br>• oddi ar y lan, yn y parth rhynglanwol, a'r cyrion morwrol, y gyllideb waddod (1) y system ffisegol; a sensitifrwydd yr amgylchedd arfordirol cyffredinol i newid naturiol neu ddylanwadau dynol.<br><br>Bydd ystyriaeth o'r materion hyn yn caniatáu i awdurdodau cynllunio lleol adlewyrchu amrywiaethau mewn amodau ffisegol a biolegol ar hyd eu rhannau o'r arfordir yn hytrach na mabwysiadu dull cyffredinol i gynllunio arfordirol. Bydd hefyd yn eu galluogi i ystyried yr effeithiau, gan gynnwys effeithiau cronnol, cynigion datblygiad ar safleoedd o ddiddordeb cadwraeth natur a thirwedd. | |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC |
|---|---|
| **TAN 18: Trafnidiaeth**<br>Mae'r TAN yn amlinellu sut trwy arwain lleoliad datblygiadau newydd, lleihau'r angen i deithio, a hyrwyddo dewisiadau trafnidiaeth sy'n llai llygredig, gall cynllunio defnydd tir gyfrannu yn y tymor hir at welliannau amgylcheddol. | |
| Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio polisïau cynlluniau datblygu a phenderfyniadau rheoli datblygiad i leihau'r angen i ddefnyddio cefnffyrdd a llwybrau drwodd eraill ar gyfer teithiau lleol byr, yn enwedig lle maent yn ffurfio rhan o'r rhwydwaith strategol.<br>Gall datblygiadau yng nghyffiniau ffyrdd o'r fath, neu eu cyffyrdd, ychwanegu'n sylweddol at symudiadau traffig lleol a lleihau effeithiolrwydd y rhwydwaith ffyrdd. Dylai awdurdodau lleol nodi'r llwybrau drwodd hyn, fel coridorau ar gyfer symud lle bydd datblygiad yn cael ei wrthwynebu.<br>Efallai y bydd y traffig ychwanegol a gynhyrchir gan ddatblygiad arfaethedig yn cyflwyno yr angen am welliannau trafnidiaeth yn ardal y cynllun, a thu hwnt.<br>Dylai awdurdodau lleol annog, trwy eu gweithredoedd eu hunain a pholisïau a chynigion eu Cynllun Datblygu Unedol (CDU), leoliad ystod eang o gyfleusterau ar y lefel leol fel eu bod ar gael ar droed neu ar feic.<br>Dylid ystyried ffyrdd y gellir gwneud ardaloedd a datblygiadau yn fwy deniadol ac yn fwy diogel i gerddwyr.<br>Felly, dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried effeithiau lleol eu polisïau lleoliadau ar seilwaith trafnidiaeth ac ansawdd aer, a defnyddio polisïau cyflenwol lle bo modd i wrthsefyll y pwysau hynny.<br>Mae trafnidiaeth gyhoeddus yn debygol o fod yn rhan bwysig o unrhyw strategaeth gydlynol ac amgylcheddol gynaliadwy.<br>I gynigion trafnidiaeth, mae angen asesiad amgylcheddol pe byddai'r datblygiad penodol yn debygol o gael effeithiau amgylcheddol sylweddol. | Mae goblygiadau trafnidiaeth yn rhan annatod o’r rhan fwyaf o benderfyniadau datblygu. Mae'r mater hwn hefyd o bwys mawr wrth ystyried materion cynaliadwyedd.<br>Dylai Cynllun Eryrigefnogi’r CDLl i annog dulliau trafnidiaeth gynaliadwy, a lleihau'r angen i deithio a dylai’r fframwaith AC gynnwys amcanion sy’n ymdrin â defnyddio trafnidiaeth gynaliadwy. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC |
|---|---|
| **TAN 19: Telathrebu**<br>Mae'r cyngor hwn yn ystyried twf y diwydiant telathrebu a thechnoleg, y gofynion cymdeithasol ac economaidd newydd i gyfathrebu, ac polisïau amgylcheddol y Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad). | |
| Dylai cynlluniau datblygu ddarparu ar gyfer datblygiadau telathrebu drwy gymryd i ystyriaeth ofynion strategol rhwydweithiau telathrebu.<br>Bydd amddiffyn rhag ymyrraeth weledol a'r goblygiadau ar gyfer datblygiad rhwydwaith dilynol yn ystyriaethau pwysig wrth benderfynu ar geisiadau. Gall natur rhai datblygiadau telathrebu mewn rhai achosion greu gwrthdaro amlwg â pholisïau cynllunio lleol a chenedlaethol sefydledig.<br>Dylid rhoi blaenoriaeth uchel i warchod ardaloedd o'r fath a'r angen i ddiogelu ardaloedd o bwysigrwydd amgylcheddol arbennig. | Dylai Cynllun Eryrilleol gefnogi’r CDLl i ystyried effeithiau cynaliadwyedd datblygiadau telathrebu, gan gydbwyso'r angen am dwf economaidd, gydag effeithiau cymdeithasol ac amgylcheddol. |
| **TAN20: Yr Iaith Gymraeg**<br>Mae TAN20 yn rhoi arweiniad ar sut y dylai'r iaith Gymraeg gael ei diogelu | |
| Lle mae defnydd o'r iaith Gymraeg yn rhan o wead cymdeithasol y gymuned, dylai anghenion a buddiannau'r iaith gael eu cymryd i ystyriaeth wrth lunio’r polisïau a nodir mewn Cynlluniau Datblygu Unedol. Dylai datganiad ysgrifenedig y Cynllun Datblygu Unedol gynnwys Canllawiau Cynllunio (Cymru) rhesymedig, Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) 20, cyfiawnhad o holl bolisïau a chynigion y Cynllun Mehefin 2000. | Pan fo'r Gymraeg yn cael ei siarad yn y gymuned, rhaid i'r polisi ystyried y goblygiadau cymdeithasol y gallai hyn ei gael, a rhaid ystyried cadwraeth y dreftadaeth ddiwylliannol.<br><br>Dylai’r fframwaith AC gynnwys amcanion sy'n hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg a threftadaeth. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **TAN 23: Datblygu Economaidd**<br>Pwrpas y canllawiau technegol hyn yw helpu awdurdodau cynllunio lleol a datblygwyr sydd yn gweithredu polisi cynllunio cenedlaethol ar ddatblygiad economaidd. | |
| Mae'r TAN hwn yn amlinellu bod materion cynaliadwyedd mewn ardaloedd gwledig yng Nghymru yn wahanol i'r rhai mewn ardaloedd mwy trefol. Mae'r TAN yn nodi, mewn ardaloedd gwledig y dylai dull dilyniannol gael ei ddefnyddio wrth nodi tir ar gyfer defnydd economaidd. Mae'n nodi y gallai fod yn briodol i fusnesau ehangu yn y fan a'r lle yn hytrach na symud i safle a ffefrir. Yn ogystal â hyn, dylai addasu adeiladau gwledig at ddefnydd busnes gael ei drin yn gadarnhaol cyn belled â'u bod yn addas, ar yr amod nad yw'n cael effaith negyddol ar fywiogrwydd tref neu bentref cyfagos. | Dylai polisïau sy'n ymwneud â'r economi wledig gynaliadwy gefnogi amcanion yr TAN hwn.<br><br>Dylai'r amcanion AC o fewn y fframwaith hefyd gefnogi gofynion y TAN - Helpu creu cyfleoedd cyflogaeth lleol a busnesau sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryriand  a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Strategaeth Gymunedol Gwella Gwynedd (2011)<br>Mae'r ddogfen yn gosod y weledigaeth ar gyfer gwella ansawdd bywyd yng Ngwynedd hyd at 2021</td></tr>
<tr><td>Pwrpas y ddogfen yw hyrwyddo lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yng Ngwynedd. Mae'r egwyddorion canlynol yn ganolog i'r gwaith gan gynnwys<br>• Hyrwyddo llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau er mwyn gwella ansawdd bywyd ar gyfer ein cenhedlaeth ni a rhai’r dyfodol.<br>• Hyrwyddo gwasanaethau lleol gyda ffocws ar ddinasyddion<br>• Delio â materion cymdeithasol sy'n cyfrannu at eithrio cymdeithasol, iechyd gwael, a chyfle cyfartal<br>• Ymrwymiad i weithio gyda'n gilydd ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector<br>• Ymrwymiad i fod yn atebol i ddinasyddion y sir<br>• Hyrwyddo cyfle cyfartal<br>• Hyrwyddo'r Gymraeg<br>Mae pum prif amcan yr anelir atynt:<br>• Ardal lle mae'r economi yn ffynnu<br>• Ardal gydag amgylchedd cynaliadwy<br>• Ardal lle mae plant a phobl ifanc yn llwyddo<br>• Ardal gyffrous i fyw ynddi gyda chymunedau bywiog<br>• Ardal gydag iechyd da a'r gofal gorau yn y gymuned.</td><td>Dylai polisïau o fewn y CRhPC gefnogi datblygu cynaliadwy, sy'n cynnwys yr amgylchedd, cymdeithasol a'r economi.<br><br>Mae’r amcanion AC wedi eu drafftio i sicrhau hyfywedd cymunedau lleol.</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryria’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Eryri.<br>Mae hwn yn nodi beth yw’r bygythiadau lleol i gynefinoedd a rhywogaethau a chyfleoedd ar gyfer eu cynnal a'u cadw, eu gwella neu eu hadfer. Mae'r Cynlluniau Gweithredu yn crynhoi arferion rheoli cyfredol, lleol ac yn gosod targedau yn unol â'r defnydd cynaliadwy o'n adnodd Bioamrywiaeth lleol. Mae'r CGB yn cael ei integreiddio i mewn i dargedau lleol a rhanbarthol. Maent yn cysylltu'r holl weithredu arfaethedig gyda'r sefydliadau lleol sy'n eu cyflenwi.</td></tr>
<tr><td>Amcanion<br>• Cynnal a gwella Bioamrywiaeth Eryri trwy:<br>  • Ddiogelu'r boblogaeth naturiol a dosbarthiad rhywogaethau - nid yn unig y rhai sydd yn brin ac o dan fygythiad, ond rhai cyffredin hefyd.<br>  • Diogelu cynefinoedd ac ecosystemau naturiol a lled-naturiol lle gellir cynnal rhywogaethau.<br>  • Nodi, os yw'n briodol, gynefinoedd ar gyfer cynlluniau ail-greu - a neu rywogaethau ar gyfer cynlluniau ailgyflwyno ac ail-sefydlu.<br>• Cyfrannu tuag at gadwraeth y Deyrnas Unedig a bioamrywiaeth fyd-eang trwy integreiddio gyda thargedau cenedlaethol a rhyngwladol.<br>• Annog mwy o gyfranogiad a 'pherchnogaeth' o’r CGB ymhlith aelodau o'r gymuned leol a'r rhai sy'n ymweld â'r Parc.<br>• Cynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o Gynllun Bioamrywiaeth Eryri.<br>• Monitro effeithiolrwydd y Cynllun yn rheolaidd.<br>• Ceisio sicrhau bod y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth yn ddogfen waith fyw a hirdymor.</td><td>Dylai Cynllun Eryrigyfeirio at leoliad y rhywogaethau hyn a sicrhau bod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd trwy bolisïau i ddiogelu a gwarchod cynefinoedd.<br><br>Dylai’r fframwaith AC gynnwys amcanion sy’n ceisio gwarchod a gwella bioamrywiaeth.  Bydd y broses o gasglu data sylfaenol hefyd yn casglu data am y nodweddion cadwraeth natur ym Mharc Cenedlaethol Eryri.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC |
|---|---|
| **Cynllun Strategol Cyngor Gwynedd 2017-18**<br>Y Cynllun Strategol yw prif gynllun Cyngor Gwynedd. Pwrpas y cynllun yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod 2013-17 ac i ddisgrifio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud i'w cyflawni. Strategaeth Datblygiad Economaidd Gwynedd 2001 - 2006 (diwygiwyd Mehefin 2003): | |
| Mae'r Cynllun Strategol yn disgrifio'r gwahaniaeth y mae'r Cyngor am wneud erbyn 2017 ac yn esbonio sut y bydd y Cyngor yn mesur effaith ei waith yn ystod y pedair blynedd nesaf. | Yn berthnasol i’r CRhPC, a dylid eu hintegreiddio o fewn y Cynllun:<br><br>• Creu'r amodau ar gyfer mentrau i ffynnu ar draws Gwynedd<br>• Creu'r amodau i fusnesau greu a chynnal swyddi gwerth uchel<br>• Lleihau perygl llifogydd<br>• Hyrwyddo bywyd gwyllt<br>• Hwyluso a rheoli datblygiad cynaliadwy<br>• Galluogi trigolion Gwynedd i fyw bywydau egnïol a bywiog<br>• Diogelu iechyd a llesiant y cyhoedd<br>• Cryfhau ac adfywio cymunedau<br>• Cynnal llwybrau troed cyhoeddus a chaeau chwarae<br>• Hyrwyddo'r defnydd o'r iaith Gymraeg<br>• Hyrwyddo ein diwylliant, ein treftadaeth a'r celfyddydau<br>• Lleihau costau ynni, allyriadau carbon ac atal llygredd golau |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun Corfforaethol Conwy 2017-2022<br>Mae'r Cynllun hwn yn nodi'r blaenoriaethau gwella ar gyfer y Cyngor uwchlaw a thu hwnt i gyflwyno gwasanaeth pob dydd.</td></tr>
<tr><td>Y blaenoriaethau hyn yw’r ffocws ar gyfer y Cyngor cyfan ac mae'r Cynllun yn cael ei ffurfio o gwmpas cyflenwi gwelliannau mewn 8 ardal a cheisio sicrhau bod pobl yng Nghonwy:<br><br>• yn cael eu haddysgu ac yn fedrus<br>• yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel<br>• yn byw mewn tai diogel ac addas<br>• yn iach ac yn annibynnol<br>• yn byw mewn sir sydd ag economi ffyniannus<br>• yn byw mewn amgylchedd cynaliadwy<br>• yn byw mewn sir lle mae treftadaeth, diwylliant a'r iaith Gymraeg yn ffynnu<br>• yn cael eu hysbysu, eu cynnwys ac yn cael gwrandawiad</td><td>Bydd Cynllun Corfforaethol Conwy yn darparu fframwaith strategol ar gyfer gwelliannau ar gyfer Conwy gyfan gan gynnwys y rhannau hynny sy'n gorwedd y tu mewn i'r Parc Cenedlaethol.<br><br>Dylai Cynllun Eryriategu Cynllun Corfforaethol Conwy.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Cynllun Sengl Integredig ar gyfer Ynys Môn a Gwynedd 2013-2025** | |
| Gweledigaeth y cynllun hwn yw gweithio gyda'n gilydd i gryfhau cymunedau Ynys Môn a Gwynedd gyda tri chanlyniad allweddol<br>**Cymunedau Ffyniannus**<br>• Mae pobl yn derbyn cymorth effeithiol i gyflawni eu potensial<br>• Cymunedau yn gydlynol ac yn gweithio gyda'i gilydd i gefnogi unigolion mewn angen<br>• Mae gan bobl sgiliau perthnasol i sicrhau cyflogaeth<br>• Pobl sydd mewn angen ariannol yn cael cymorth a chyngor da<br>• Manteision y cysyniad Ynys Ynni yn cael eu huchafu ar gyfer pobl leol<br>• Gall pobl gael gafael ar dai fforddiadwy<br>• Yr iaith Gymraeg yn ffynnu.<br>• Mae twf busnesau lleol a'r diwydiant twristiaeth yn cael ei annog<br><br>**Cymunedau iach**<br>• Mae pobl yn Ynys Môn a Gwynedd yn iach ac yn weithgar<br>• Mae cymunedau yn fwy annibynnol ac yn gallu rheoli eu llesiant eu hunain<br>• Llai o bobl yn ysmygu<br>• Mwy o bobl sydd o bwysau iach<br>• Mae plant a theuluoedd yn derbyn cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i ddiwallu eu hanghenion<br>• Oedolion yn byw'n annibynnol yn eu cymuned<br>• Plant a phobl ifanc yn cael mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden a gweithgareddau chwaraeon<br>**Cymunedau diogel**<br>• Gall dioddefwyr cam-driniaeth ddomestig fod yn hyderus o dderbyn cymorth ac ymateb priodol pan fo angen<br>• Mae cam-drin domestig yn cael sylw priodol yn ein cymunedau fel trosedd annerbyniol<br>• Cefnogaeth a gwasanaethau ar gael i bobl sy'n camddefnyddio alcohol a / neu gyffuriau<br>• Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i leihau effeithiau alcohol a chamddefnyddio sylweddau yn ein cymunedau<br>• Asiantaethau yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau | Dylai'r polisïau a gynhwysir yn y CRhPC a'r amcanion AC gefnogi amcanion y cynllun hwn, sy'n berthnasol i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
| --- | --- |
| **Ymgynghoriad Drafft Cynllun Trafnidiaeth ar y Cyd Lleol Gogledd Cymru 2015 - 2020**<br>O dan Adran 108 o'r Ddeddf Trafnidiaeth 2000 fel y diwygiwyd gan y Ddeddf Trafnidiaeth (Cymru) 2006 mae'n ofynnol i'r chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru i gynhyrchu Cynllun Trafnidiaeth Lleol. Mae'r Cynllun wedi cael ei ddatblygu yn unol â'r 'Canllawiau i Awdurdodau Trafnidiaeth Lleol - Cynllun Trafnidiaeth Lleol 2015' Llywodraeth Cymru (Mai 2014). Mae'r Cynllun yn nodi y rhanbarthau a fwriedir ar gyfer Canlyniadau ac Ymyriadau Lefel Uwch ar gyfer trafnidiaeth yn y Gogledd. | |
| Y weledigaeth a nodir yn y cynllun drafft yw "darparu rhwydweithiau trafnidiaeth diogel, cynaliadwy ac effeithlon i gefnogi gweithgareddau economaidd a chymdeithasol cymunedau a busnesau amrywiol Gogledd Cymru gan ystyried ei rôl strategol Ewropeaidd." Yn dilyn ymlaen o hyn, cafodd yr amcanion i gyflawni'r weledigaeth eu datblygu – y rhain yw:-<br><br>1. Optimeiddio mynediad at waith, addysg, iechyd a gwasanaethau ar gyfer holl gymunedau amrywiol Gogledd Cymru<br>2. Gwella ansawdd a darpariaeth trafnidiaeth i deithwyr ledled Gogledd Cymru ac i ac o'r Rhanbarth<br>3. Hwyluso symudiad effeithlon o nwyddau sy'n cefnogi diwydiant a masnach y Rhanbarth a'i swyddogaethau Porth Rhyngwladol<br>4. Darparu, hyrwyddo a gwella dulliau cynaliadwy o drafnidiaeth a seilwaith er mwyn lleihau effeithiau negyddol trafnidiaeth ar yr amgylchedd lleol a byd- eang<br>5. Gwella diogelwch pob math o drafnidiaeth<br>6. Gwella effeithlonrwydd a defnydd o'r rhwydwaith trafnidiaeth<br>7. Uwchraddio a chynnal y seilwaith trafnidiaeth, gan ddarparu newydd lle bo angen | Dylai'r polisïau sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn y CRhPC gefnogi'r amcanion a nodir yn y ddogfen hon. |

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryri a'r Broses AC |
|---|---|
| **Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – 2020**<br>Cynhyrchwyd Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) ar y cyd gan y tri Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth Cymru, sef Ceredigion, Powys a Meirionnydd yng Ngwynedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynllun trafnidiaeth lleol a gall hyn fod ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau trafnidiaeth lleol. | |
| Cynllun Trafnidiaeth Lleol ar y Cyd Canolbarth Cymru 2015 – 2020<br><br>• Cynhyrchwyd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol (CTLl) ar y cyd gan y tri Awdurdod Lleol yng Nghanolbarth Cymru, sef Ceredigion, Powys a Meirionnydd yng Ngwynedd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol baratoi cynllun trafnidiaeth lleol a gall hyn fod ar y cyd gydag un neu fwy o awdurdodau trafnidiaeth lleol.. | Dylai'r polisïau perthnasol sy'n ymwneud â thrafnidiaeth yn y CRhPC gefnogi'r amcanion a nodir yn y ddogfen hon. |

<table>
<tr><th>Amcanion, targedau, dangosyddion</th><th>Goblygiadau i Cynllun Eryri a’r Broses AC</th></tr>
<tr><td colspan="2">Cynllun 2 Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru.<br>Mae Cynllun Rheoli Traethlin (CRhT) yn darparu asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sy'n gysylltiedig â esblygiad arfordirol ac yn cyflwyno fframwaith polisi er mwyn mynd i'r afael â'r risgiau hyn i bobl a'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn modd cynaliadwy.</td></tr>
<tr><td>Amcanion Cynllun 2 Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru yw:<br><br>• Nodi’r risgiau o lifogydd ac erydiad i bobl ac amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol o fewn yr ardal astudiaeth y CRhT2;<br>• Nodi’r risgiau o lifogydd ac erydiad i bobl ac amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol o fewn yr ardal astudiaeth y CRHT2;<br>• Adnabod cyfleoedd i gynnal a gwella'r amgylchedd trwy reoli'r risgiau o lifogydd ac erydu arfordirol;<br>• Nodi'r polisïau dewisol ar gyfer rheoli risgiau o lifogydd ac erydiad yn ystod y ganrif nesaf;<br>• Nodi canlyniadau rhoi'r polisïau dewisol ar waith;<br>• Gosod gweithdrefnau ar gyfer monitro pa mor effeithiol yw'r polisïau hyn;<br>• Hysbysu eraill fel bod defnydd tir, cynllunio a datblygu'r traethlin yn y dyfodol yn ystyried y risg a'r polisïau dewisol<br>• Gwrth-annog datblygiad amhriodol mewn ardaloedd lle mae'r peryglon llifogydd ac erydiad yn uchel; a<br>• Bodloni deddfwriaeth cadwraeth natur rhyngwladol a chenedlaethol ac anelu at gyflawni'r amcanion bioamrywiaeth.<br>Yn ogystal, nododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ddehongliad pellach o amcanion y CRhT2, sef:<br><br>• Annog darpariaeth ddigonol a chost-effeithiol o systemau rhybuddio rhag lifogydd;<br>• Annog darpariaeth ddigonol o fesurau amddiffyn rhag llifogydd a mesurau amddiffyn arfordirol sy'n dechnegol, yn amgylcheddol ac yn economaidd gadarn a chynaliadwy</td><td>Dylai’r agweddau hynny o'r CRhT 2 (a'i ragflaenydd) sy'n effeithio ar arfordir y Parc Cenedlaethol gael eu cymryd i ystyriaeth pan ddatblygir y CRhPC.</td></tr>
</table>

| Amcanion, targedau, dangosyddion | Goblygiadau i Cynllun Eryria'r Broses AC |
|---|---|
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru**<br>Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd yn ystod y chwe blynedd nesaf gan Gyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner eraill, i wneud afonydd, nentydd a llynnoedd Cymru yn lleoedd gwell ar gyfer bywyd gwyllt a phobl | |
| Mae'r Cynllun hefyd yn ystyried cyrff dŵr Cymru fel rhan o'r amgylchedd ehangach ac mae'r camau gweithredu a gynigir yn y cynllun yn gwella gwytnwch ecosystemau ac yn darparu buddion lluosog - er enghraifft gall gwella rheoli tir yn yr ucheldiroedd fod o fudd sylweddol o ran gwydnwch newid yn yr hinsawdd, dal carbon, storio llifogydd a gwell ansawdd dŵr i lawr yr afon. | Dylai'r polisïau perthnasol sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr yn y CRhPC gefnogi'r amcanion sy'n gysylltiedig a gwella cyrff dŵr a nodir yn y ddogfen hon. |
| **Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy**<br>Mae'r Cynllun yn amlinellu'r camau y mae angen eu cymryd yn ystod y chwe blynedd nesaf gan Gyfoeth Naturiol Cymru a sefydliadau partner eraill, i wneud afonydd, nentydd a llynnoedd Cymru yn lleoedd gwell ar gyfer bywyd gwyllt a phobl | |
| Mae'r Cynllun hefyd yn ystyried cyrff dŵr Cymru fel rhan o'r amgylchedd ehangach ac mae'r camau gweithredu a gynigir yn y cynllun yn gwella gwytnwch ecosystemau ac yn darparu buddion lluosog - er enghraifft gall gwella rheoli tir yn yr ucheldiroedd fod o fudd sylweddol o ran gwydnwch newid yn yr hinsawdd, dal carbon, storio llifogydd a gwell ansawdd dŵr i lawr yr afon. | Dylai'r polisïau perthnasol sy'n ymwneud â'r amgylchedd dŵr yn y CRhPC gefnogi'r amcanion sy'n gysylltiedig a gwella cyrff dŵr a nodir yn y ddogfen hon. |

## Atodiad C: Cydweddoldeb Amcanion yr AoG

## Allwedd Asesu Cydweddoldeb

✓ = Amcanion yn cydweddu

✗ = Amcanion nad ydynt o bosib yn cydweddu

0 = Nid oes cyswllt rhwng yr amcanion

? = Mae'r cyswllt rhwng yr amcanion yn ansicr

| Amcan rhif | Amcan |
|---|---|
| **Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol** | |
| 1 | Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd |
| 2 | Amddiffyn a gwella ansawdd aer |
| 3 | Lleihau halogiad pridd a hyrwyddo adfer tir halogedig |
| 4 | Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth |
| 5 | Cynnal a diogelu daeareg a geomorffoleg Parc Cenedlaethol Eryri lle bo angen |
| 6 | Diogelu'r amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archeoleg a'r dirwedd hanesyddol |
| 7 | Gwerthfawrogi a gwarchod amrywiaeth a hynodrwydd |
| 8 | Gwarchod, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r iaith Gymraeg |
| 9 | Sicrhau fod lleoliad a dyluniad datblygiadau newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd |
| 10 | Diogelu ansawdd a maint yr adnoddau dŵr |
| 11 | Lleihau gwastraff, cynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu |
| **Meithrin Llesiant Economaidd a Chymdeithasol** | |
| 12 | Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol |
| 13 | Annog arallgyfeirio cynaliadwy mewn amaethyddiaeth a choedwigaeth |
| 14 | Gwella'r sylfaen sgiliau leol |
| 15 | Darparu cyfleoedd dysgu |
| 16 | Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r economi leol |
| 17 | Cynorthwyo i greu cyfleoedd cyflogaeth leol a busnesau sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol |
| **Hyrwyddo Dealltwriaeth a Mwynhad** | |
| 18 | Hyrwyddo mynediad i bawb trwy Ddeddf CRoW |
| 19 | Hyrwyddo cyfleoedd dysgu, darparu gwybodaeth a dehongliad |

| | |
|---|---|
| 20 | Cynyddu cyfranogiad mewn ystod eang o weithgareddau a phrofiadau |

| | | Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol | | | | | | | | | | | Meithrin Llesiant Economaidd a Chymdeithasol | | | | | | Hyrwyddo Dealltwriaeth a Mwynhad | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | 17 | 18 | 19 | 20 |
| Gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol | 1 | | | | | | | | 0 | 0 | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | ? |
| | **2** | | | 0 | | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | ? |
| | 3 | ? | | | | | | | 0 | 0 | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 4 | | | | | | ? | | 0 | 0 | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | ? | ? | 0 | ? |
| | 5 | | 0 | | | | 0 | | 0 | 0 | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | 6 | | | 0 | ? | | | | | | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | ? | ? | ? | ? |
| | 7 | | 0 | 0 | | | | | | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | | ? |
| | 8 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | | 0 | 0 | 0 | | ? | | 0 | 0 | ? | 0 | | ? |
| | 9 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 |
| | 10 | | 0 | | | | | 0 | 0 | | | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | ? | 0 | 0 | 0 |
| | 11 | 0 | 0 | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | ? | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 |
| Meithrin Llesiant Economaidd a Chymdeithasol | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | | 0 | 0 | 0 | | 0 | | | | | 0 | 0 | |
| | 13 | ? | | ? | ? | ? | ? | ? | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | | ? | ? | | ? | 0 | 0 | 0 |
| | 14 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 | 0 | 0 | | | | ? | ? | ? | 0 | 0 | |
| | 15 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | | | | 0 | 0 | 0 | | | | | ? | ? | 0 | | |
| | 16 | ? | ? | 0 | ? | ? | ? | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | | | ? | ? | | | 0 | 0 | ? |
| | 17 | 0 | ? | 0 | ? | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | ? | | ? | | | 0 | 0 | ? |
| | 18 | ? | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | 0 | ? |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwy ddo Deallt wriaet | 19 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ? | | ? | | | ? | 0 | 0 | | |
| | 20 | 0 | 0 | 0 | ? | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | ? | | | ? | 0 | ? | | |

## Atodiad D: Cydweddoldeb Canlyniadau Cynllun Eryri ac Amcanion yr AoG

| **Rhif** | **Amcanion yr AoG** |
|---|---|
| 1 | Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu |
| 2 | Sicrhau fod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau posibl llifogydd. |
| 3 | *Hyrwyddo'r defnydd o ddeunydd cynaliadwy o ffynonellau lleol gan gynnwys ynni.* |
| 4 | *Hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafnidiaeth gynaliadwy a lleihau effaith ceir, cludo nwyddau ar y ffyrdd a seilwaith.* |
| 5 | Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd. |
| 6 | Amddiffyn a gwella ansawdd aer. |
| 7 | Gwarchod ansawdd pridd trwy leihau halogiad ac amddiffyn swyddogaeth y pridd |
| 8 | Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol |
| 9 | Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth |
| 10 | Gwerthfawrogi ac amddiffyn amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archaeoleg a thirwedd hanesyddol |
| 11 | Diogelu a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad y treflun |
| 12 | Cadw, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r Gymraeg |
| 13 | Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr |
| 14 | Hyrwyddo dulliau o leihau gwastraff cymaint â phosibl, a chynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu |
| 15 | Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd |
| 16 | Hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gweithredoedd cymunedol unigol i liniaru'r effeithiau ac i addasu. |
| 17 | *Gwella nifer ac ansawdd mannau agored cyhoeddus* |
| 18 | Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf. |
| 19 | *Darparu tai i ddiwallu'r angen lleol* |
| 20 | *Hyrwyddo gwell mynediad at wasanaethau lleol ac amwynderau i bawb* |
| 21 | *Hyrwyddo cymunedau diogel, iach a chynaliadwy* |
| 22 | Hyrwyddo a hwyluso gwell ymgysylltiad cymunedol |
| 23 | Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gynorthwyo'r economi lleol |
| 24 | Cynorthwyo i greu cyfleoedd gwaith a busnesau lleol sy'n gysylltiedig â dibenion y Parc Cenedlaethol |
| 25 | Gwella'r sylfaen sgiliau leol. |
| 26 | Darparu cyfleoedd dysgu. |

[1] Mae'r Amcanion AoG hynny mewn llythrennau italig yn berthnasol i AoG y Cynllun Datblygu Lleol yn unig.

| Rhif | Amcanion/ Canlyniadau Strategol Cynllun Eryri |
|---|---|
| 1 | Mae unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ar y Parc Cenedlaethol yn cael eu lleihau. |
| 2 | Mae bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod gwytnwch ecosystemau'n cynyddu. |
| 3 | Rydym yn barod am effeithiau newid yn yr hinsawdd ac yn lleihau ein hôl troed carbon. |
| 4 | Mae Eryri ar y blaen yn rhyngwladol wrth fynd i'r afael yn llwyddiannus â rhywogaethau goresgynnol, plâu a chlefydau sy'n effeithio ar rywogaethau brodorol. |
| 5 | Mae cymunedau, busnesau ac ymwelwyr yn chwarae rhan weithredol wrth ofalu am dirweddau, cynefinoedd, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol. |
| 6 | Mae Eryri yn enghraifft flaenllaw yng Nghymru o sut i ofalu am a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol a'r amgylchedd hanesyddol. |
| 7 | Mae ein Rhinweddau Arbennig wedi'u diogelu'n dda. |
| 8 | Mae'r Parc Cenedlaethol yn cael effaith gadarnhaol ar lesiant. |
| 9 | Gall trigolion ac ymwelwyr gyrchu amrywiaeth o lwybrau yn y Parc Cenedlaethol gyda'r nod o wella iechyd corfforol a meddyliol. |
| 10 | Mae ein Rhinweddau Arbennig yn cael eu cydnabod a'u deall yn eang. |
| 11 | Cyflawnir opsiynau cynaliadwy ar gyfer parcio a chludiant. |
| 12 | Mae ein cyfleusterau i ymwelwyr o ansawdd uchel ac yn sensitif i'r dirwedd. |
| 13 | Mae iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael eu dathlu, eu cefnogi a'u cryfhau. |
| 14 | Mae swyddi a chyfleoedd yn annog pobl i ymgartrefu yn yr ardal. |
| 15 | Rydym yn gweithredu atebion ar gyfer tai fforddiadwy i'w prynu a'u rhentu. |
| 16 | Cefnogir cymunedau lleol i ffynnu ym mhob agwedd ar lesiant. |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canlyniadau Cynllun Rheoli'r Parc Cendlaethol** | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Amcanion AoG | | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 | 14 | 15 | 16 | |
| | 1 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 2 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | |
| | 3 | [redacted] | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 4 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 5 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | |
| | 6 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | |
| | 7 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | 8 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | |
| | 9 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | 10 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | |
| | 11 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 12 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | |
| | 13 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | |
| | 14 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | 15 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 16 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | |
| | 17 | [redacted] | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 18 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | |
| | 19 | [redacted] | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 20 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 21 | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| | 22 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 23 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | 0 | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | 0 | |
| | 24 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 25 | 0 | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | 0 | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | |
| | 26 | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | 0 | ✓ | ✓ | 0 | 0 | ✓ | |

**Allwedd**:

✓ = Amcanion yn cydweddu
X = Amcanion/nodau nad ydynt o bosib yn cydweddu
0 = Nid oes cyswllt rhwng yr amcanion
? = Mae'r cysyllt rhwng yr amcanion yn ansicr

## Atodiad E: Asesiad o'r Canlyniadau

| Amgylchedd Eryri - Canlyniad hirdymor: Mae ein hasedau naturiol a hanesyddol a'n hamgylchedd syfrdanol yn derbyn gofal ac yn cael eu gwella (Pwrpas Parc Cenedlaethol 1) | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amcan AoG** | **Graddfa** | | | | | | **Parhauster** | **Lefel Ansicrwydd** | **Sylwadau/Argymhellion** |
| | Effaith ym Mharc Cenedlaethol Eryri | | | Rhanbarthol/ trawsffiniol | | | | | |
| | Tymor byr (<5 bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Tymor byr (<5bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Dros dro / parhaol | Isel/ canolig/ uchel | |
| Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Canlyniad A3 a'i bolisïau cysylltiedig yn canolbwyntio'n benodol ar leihau carbon a chynlluniau storio a dal carbon yn y Parc Cenedlaethol er mwyn amddiffyn a lliniaru rhag newid yn yr hinsawdd.<br><br>Gall y gweithredoedd hyn fod o fudd i'r ardal ehangach, ac nid i'r PC yn unig - a'u nod yw cael effaith genedlaethol, ac yn aml yn rhyngwladol.<br><br>Mae Polisi A3.3 yn tynnu sylw at gamau penodol i ymchwilio i fethodoleg Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd i'w chymhwyso i asedau'r Parc Cenedlaethol. |
| Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Er bod Polisi A2.3 yn mynd i'r afael â defnyddio adnoddau dŵr yn gynaliadwy, nid yw'n mynd |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| canlyniadau llifogydd posibl | | | | | | | | | i'r afael yn benodol â risg neu ddyluniad llifogydd.<br><br>Mae'r amcan hwn yn fwy perthnasol i Gynllun Datblygu Lleol Eryri. |
| Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | CANLYNIAD A7. Mae tirweddau nodedig a mathau o gymeriadau a'r Rhinweddau Arbennig, gan gynnwys ardaloedd o dawelwch, yn cael eu gwarchod - yn ymdrin â'r amcan hwn yn benodol.<br><br>Mae cyfres o Gamau Gweithredu yn ategu'r polisïau hyn gan ddefnyddio'r CDLl a'r CCA er mwyn cyflawni'r amcan hwn.<br><br>Er bod y camau hyn yn sicr o gael eu gweithredu yn y Parc, nid oes polisi penodol ar gyfer yr ardal ranbarthol ehangach. Serch hynny mae prosiectau a grybwyllir a fydd yn anochel yn croesi ffin y Parc ac yn cael effaith gadarnhaol ar yr ardaloedd cyfagos - e.e. Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. |
| Amddiffyn a gwella ansawdd aer. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes unrhyw amcanion penodol o ran ansawdd aer - fodd bynnag, gellir tybio y bydd pob gweithred sy'n ymwneud â choed / coedwigoedd / plannu ac adfer cynefinoedd ac ecosystemau naturiol yn cael |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | effaith gadarnhaol ar ansawdd aer yn y rhanbarth. |
| Gwarchod ansawdd pridd trwy leihau halogiad ac amddiffyn swyddogaeth y pridd. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Polisi A3.2 yn cynnwys Cam Gweithredu penodol ar ansawdd pridd, a bydd y polisi cyffredinol sy'n ymroddedig i 'Ddiogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri' yn cyfrannu at leihau halogiad ac yn ymdrin ag ansawdd y pridd. Gyda chyllid prosiect, mae hyn yn canolbwyntio ar feysydd penodol yn rhanbarthol, er mai'r nod fyddai sicrhau cyllid pellach er mwyn ehangu cwmpas y gwaith hwn.<br><br>Yn ymarferol, bydd hyn yn cael effaith ar ardaloedd eraill y tu allan i'r Parc Cenedlaethol hefyd. |
| Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Polisi pwrpasol A7.8. Mae Amddiffyn a gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) a geoamrywiaeth gyffredinol, yn sicrhau bod arweiniad wedi'i gynnwys yn y CDLl a'r CCA i gynghori ar ddatblygiad yn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'r holl gamau sy'n cynnwys gwella dealltwriaeth a diogelwch ein Rhinweddau Arbennig hefyd yn sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | gyflawni gan mai SQ8 yw ein daeareg enwog.<br><br>Er y gellir gweithredu'r amddiffyniadau hyn yn y Parc Cenedlaethol - ni allwn warantu bod yr elfennau hyn yn cael eu diogelu i'r un graddau y tu allan i ffin y PC. |
| Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Canolig | Mae'r amcan hwn yn nodwedd gref o Gynllun Eryri ac mae wedi'i flaenoriaethu ar gyfer gweithredu, yn benodol oherwydd nifer y safleoedd gwarchodedig o fewn ac ar ffin y Parc Cenedlaethol a dangosyddion diweddar bod y rhain mewn cyflwr anffafriol o ran cadwraeth, yn seiliedig ar Gynlluniau Rheoli ACA ac AGA. Gan weithio mewn Partneriaeth rydym wedi nodi a llwyddo i weithredu a chychwyn sawl prosiect a ariennir a fydd yn anelu at sicrhau bod 'Bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod gwytnwch ecosystemau yn cael ei gynyddu' yn unol â Canlyniad 2 a'r ddyletswydd well ar gyfer cyrff cyhoeddus o dan Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. |
| Gwerthfawrogi ac amddiffyn amgylchedd | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae hon yn nodwedd gref arall o Gynllun Eryri ac mae sawl polisi penodol sy'n |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archaeoleg a thirwedd hanesyddol | | | | | | | | | amlinellu ymrwymiad Partneriaid dros y 5 mlynedd nesaf a thu hwnt i sicrhau bod yr amcan hwn yn cael ei gyflawni.<br><br>Mae canlyniadau A5 ac A6 yn benodol i'r maes hwn fel y mae unrhyw bolisïau a chamau gweithredu eraill sy'n targedu ein Rhinweddau Arbennig.<br><br>Er bod ein prosiectau'n canolbwyntio ar ardal y PC, bydd llawer o groesi drosodd gyda chymunedau ar y ffin ac ar gyrion y PC. Mae hyn hefyd yn cael ei wella ymhellach mewn polisïau a chamau gweithredu o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC. |
| Diogelu a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad y treflun | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Gweler uchod – eto mae yna brosiectau penodol o fewn Cynllun Eryri sy'n tynnu sylw at y camau hyn - er enghraifft Polisi A6.3 sy'n sicrhau bod Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau yn cael ei chwblhau ac yn ystyried defnyddio mecanweithiau tebyg mewn rhannau eraill o'r Parc.<br><br>Lle bo modd, byddai hyn yn cael ei ymestyn i ardaloedd y |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | tu allan i'r Parc Cenedlaethol. |
| Cadw, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r Gymraeg. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Fel y dengys y 2 ymateb uchod, mae hyn yn rhan annatod o Gynllun Eryri ac mae'n rhedeg trwy'r holl Ganlyniadau, Polisïau a Chamau Gweithredu.<br><br>Er bod yr elfennau hyn yn gryfach mewn Canlyniadau sy'n deillio o'n 2il bwrpas a'n dyletswydd, gellir eu dilyn ym mhob polisi sy'n ymwneud â'r ddau amcan blaenorol. |
| Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Nod Polisi A2.3 yw: Sicrhau bod ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol yn cael ei gynnal a'i wella.<br><br>Yma mae cyfres o gamau gweithredu yn amlinellu sut yr ydym (a byddwn) fel Partneriaeth yn gweithio gyda'n gilydd i wella ansawdd dŵr yn y PC ac yn anochel bydd hyn yn cael effaith ar ardaloedd y tu allan i ffin y Parc hefyd.<br><br>Yn seiliedig ar bolisïau hefyd ynglŷn â choed a choetiroedd - dylem hefyd ddisgwyl y bydd y rhain yn cael effaith tymor hwy sylweddol ar ddiogelu adnoddau dŵr. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Cyfeirir at sawl cynllun rheoli tir trwy'r rhan hon o'r Cynllun a fyddai i gyd hefyd yn ystyried ansawdd dŵr yn eu cynllunio. Byddai Polisi A2.1 sy'n cyflwyno dull newydd o ymdrin â 'nwyddau cyhoeddus' hefyd yn cael effaith gadarnhaol tymor canolig hir ar ansawdd dŵr. |
| Hyrwyddo dulliau o leihau gwastraff cymaint â phosibl, a chynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Polisi A1.3 yn cymryd camau pragmatig i leihau sbwriel yn Eryri - mae'n nodi cyfres o Gamau Gweithredu i archwilio ffyrdd newydd a pharhaus i leihau gwastraff ac o bosibl i greu newid ymddygiad yn y Parc o ran ailgylchu ac ailddefnyddio.<br><br>Rydym yn rhagweld y bydd rhai o'r cynlluniau hyn ar waith erbyn 2025 er mwyn monitro eu heffeithiolrwydd a'u newid os bydd angen.<br><br>Mae'r cynlluniau hyn ar gyfer eu gweithredu yn y Parc Cenedlaethol, er y gobeithir y gall eu dylanwad cadarnhaol ymestyn y tu allan i'r ffin, ni ellir gwarantu hyn. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Amlinellir yr elfen hon yn fanylach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC, gan fod y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | gwarchod a gwella amgylchedd y Parc Cenedlaethol. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gweithredoedd cymunedol unigol i liniaru'r effeithiau ac i addasu. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Canlyniad A4 ac A5 yn cynnwys polisïau sy'n cynnwys ymgysylltu'r cyhoedd ymhellach yn yr holl waith cadwraeth ac amddiffyn a wnawn. Nid yw hyn yn canolbwyntio'n benodol ar y ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd - ond mae'n ymhlyg felly oherwydd natur y gweithredoedd er enghraifft: Polisi A5.1 i 'werthuso'r cyfleoedd sydd gennym i'r grwpiau a nodwyd i ddysgu am ac ymgysylltu ag amgylchedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri, a sut y gallant helpu i ofalu amdanynt' a fyddai, yn anochel, yn sicrhau bod y grwpiau hyn yn ymwybodol o'r prif fygythiadau i'n hamgylchedd, sy'n cael eu hachosi'n bennaf gan newid yn yr hinsawdd.<br><br>Mae grwpiau wedi'u targedu o fewn y Parc Cenedlaethol, ond nid yn unig felly, a'r gobaith yw felly y bydd y gyfres hon o gamau gweithredu yn cael cwmpas ac effaith ehangach. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Amlinellir yr elfen hon yn fanylach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf. | | | | | | | | | 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC, gan fod y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â gwarchod a gwella. |
| Hyrwyddo a hwyluso gwell ymgysylltiad cymunedol. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Amlinellir yr elfen hon yn fanylach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC, gan fod y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â gwarchod a gwella. |
| Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gynorthwyo'r economi lleol. | + | + | ++ | + | + | ++ | Parhaol | Isel | Polisi A1.4: Mae lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd, hefyd wedi'i dargedu at wella opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy ar gyfer y gymuned a'r economi leol. Mae'n amlinellu cyfres o gamau a fydd yn sicrhau bod trigolion yn cael dweud eu dweud ar sut y bydd dyfodol trafnidiaeth o amgylch yr ardal yn edrych ac y bydd mwy o argaeledd a llawer mwy o ystyriaeth i opsiynau mwy gwyrdd. Unwaith eto, er bod hyn yn canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol i ddechrau - bydd yn cymryd persbectif ehangach ac yn edrych ar drefi hwb a chysylltiadau trafnidiaeth y tu allan i'r Parc i sicrhau bod dull cyfannol a thrylwyr yn cael ei ddefnyddio. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynorthwyo i greu cyfleoedd gwaith a busnesau lleol sy'n gysylltiedig â dibenion y Parc Cenedlaethol. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Amlinellir yr elfen hon yn fanylach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC, gan fod y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â gwarchod a gwella. |
| Gwella'r sylfaen sgiliau leol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Polisi A1.2 yn amlinellu'r bwriad i adeiladu sylfaen o gontractwyr lleol ar gyfer gwaith medrus ac A6.1 i gefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau hanesyddol a'u dwyn yn ôl i ddefnydd trwy ddatblygiad cydymdeimladol, yn amlinellu un cam gweithredu sydd wedi'i gynnwys yng Nghynllun Eryri i gefnogi a datblygu sgiliau traddodiadol yn lleol. Mae'r mathau hyn o gamau gweithredu yn amlach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC.<br><br>Serch hynny, mae'r camau a grybwyllir yma yn bwysig i sicrhau ein bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i warchod a diogelu Rhinweddau Arbennig Parc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Yn ymarferol, bydd y camau hyn yn berthnasol i'r rhai sy'n byw y tu allan i ffin y Parc. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | |
| Darparu cyfleoedd dysgu. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Amlinellir yr elfen hon yn fanylach yn y Canlyniadau a'r Polisïau a restrir o dan yr 2il bwrpas a'n dyletswydd fel PC, gan fod y maes hwn yn ymwneud yn bennaf â gwarchod a gwella. |

**Iechyd a Llesiant Eryri - Canlyniad hirdymor: Mae Eryri yn darparu cyfoeth o gyfleoedd i ddysgu a darganfod ac ar yr un pryd, gwella ein llesiant (Pwrpas Parc Cenedlaethol 2)**

| **Amcan AoG** | **Graddfa** | | | | | | **Parhauster** | **Lefel Ansicrwydd** | **Sylwadau/Argymhellion** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effaith ym Mharc Cenedlaethol Eryri | | | Rhanbarthol/ trawsffiniol | | | | | |
| | Tymor byr (<5 bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Tymor byr (<5bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Dros dro / parhaol | Isel/ canolig/ uchel | |
| Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau llifogydd posibl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid yw'r amcan hwn wedi'i gysylltu'n glir â'r adran hon o Gynllun Eryri - fodd bynnag, nod Polisi B5.3 yw sicrhau bod 'llety sy'n addas ar gyfer tirwedd o ansawdd uchel yn cwrdd â disgwyliadau a galw ymwelwyr ac yn helpu i |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | gynyddu gwariant y pen' - mae hyn yn cyfrannu at y CDLl ac felly mae'n cael effaith ar gymeriad ac ansawdd y dirwedd yn gyffredinol. |
| Amddiffyn a gwella ansawdd aer. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Gwarchod ansawdd pridd trwy leihau halogiad ac amddiffyn swyddogaeth y pridd. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Nod Polisi B1.2 yw gweithio gyda grwpiau difreintiedig i wella eu dealltwriaeth o'r SQs, ond mae Canlyniad B3 yn ystyried polisi brandio newydd ar gyfer y maes sy'n canolbwyntio ar yr SQs - a fyddai hefyd yn dylanwadu ar unrhyw strategaeth gyfathrebu ddilynol.<br>Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal, byddai Daeareg a Geomorffoleg yn cael eu hyrwyddo ac felly'n cael eu deall yn fanylach gan drigolion ac ymwelwyr fel ei |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol.<br>Er bod yr amcan yn canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol yn benodol, y gobaith fyddai y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Nod Polisi B1.2 yw gweithio gyda grwpiau difreintiedig i wella eu dealltwriaeth o'r SQs, ond mae Canlyniad B3 yn ystyried polisi brandio newydd ar gyfer y maes sy'n canolbwyntio ar yr SQs - a fyddai hefyd yn dylanwadu ar unrhyw strategaeth gyfathrebu ddilynol.<br>Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal byddai bioamrywiaeth yn cael ei hyrwyddo ac felly'n cael ei deall yn fanylach gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol.<br>Y gobaith yw y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Gwerthfawrogi ac amddiffyn amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archaeoleg a thirwedd hanesyddol | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Nod Polisi B1.2 yw gweithio gyda grwpiau difreintiedig i wella eu dealltwriaeth o'r SQs, ond mae Canlyniad B3 yn ystyried polisi brandio newydd ar gyfer y maes sy'n canolbwyntio ar yr SQs - a fyddai hefyd yn dylanwadu ar unrhyw strategaeth gyfathrebu ddilynol.<br>Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal byddai Tirweddau Hanesyddol yn cael eu hyrwyddo ac felly'n cael eu deall yn fanylach gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol.<br>Y gobaith yw y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Diogelu a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad y treflun. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Gweler uchod |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadw, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r Gymraeg. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol - pob un ohonynt yn seiliedig ar wybodaeth leol, treftadaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg.<br><br>Mae hon yn thema sy'n rhedeg trwy'r holl gamau gweithredu addysgol a hyrwyddo yn y Cynllun Rheoli.<br><br>Gan fod hon yn nodwedd mor annatod o'r rhanbarth, mae hyn yn cael effaith ar draws gogledd orllewin Cymru ac ymhell i ddwyrain y wlad hefyd.<br><br>Mae'r Gymraeg ei hun yn egwyddor arweiniol sy'n rhedeg trwy ddatblygiad y Cynllun hwn. |
| Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Hyrwyddo dulliau o leihau gwastraff cymaint â phosibl, a chynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG.<br><br>Fodd bynnag, gyda'r ffocws cynyddol ar nodau newid |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | ymddygiad yng Nghanlyniad B3 a'i bolisïau sy'n deillio o hynny, yn ogystal â Pholisi B4.2. i 'Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach' y gobaith yw y byddai hyn yn cael effaith ar ymddygiad o ran byw'n gynaliadwy yn gyffredinol. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Canlyniad B3 yn delio'n benodol â'r Amcan AoG hwn: 'Trwy well cysondeb marchnata a brandio ar draws y sector, mae Eryri yn cael ei chydnabod yn rhyngwladol am ei Rhinweddau Arbennig, gan gynnwys ei diwylliant, ei threftadaeth a'i hiaith; tirweddau trawiadol; ystod eang o weithgareddau awyr agored; croeso cynnes ac ecodwristiaeth.' Mae'r holl bolisïau cysylltiedig yn sicrhau bod Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Ymhellach, bwriedir i hyn gael effaith lawer ehangach nag o fewn ffiniau'r PC. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gweithredoedd cymunedol unigol i | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Trwy Bolisi B4.2 'Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach' y bwriad yw y bydd hyn yn cynnwys ymgysylltiad cymunedol cryf ac yn cynnwys opsiynau cynaliadwy, cymunedol. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| liniaru'r effeithiau ac i addasu. | | | | | | | | | Bwriad llawer o'r opsiynau hyn yw lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd ac addasu i economi carbon niwtral fel y'i hyrwyddir gan Lywodraeth Cymru.<br><br>Bwriedir i'r camau gweithredu hyn ddigwydd yn syth, a chyflawni newid ymddygiad hirhoedlog. Yn anochel bydd y polisi hwn yn cael effaith yn yr ardal ehangach, nid yn unig yn y Parc Cenedlaethol. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o'r iaith a'r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Yr Amcan hwn yw craidd Canlyniad B3 lle mae polisïau a gweithredoedd cysylltiedig yn anelu at: Ddefnyddio dealltwriaeth a gwybodaeth leol, adeiladu darlun cryf a chlir o hunaniaeth ddiwylliannol a hanesyddol y Parc Cenedlaethol; Datblygu cyfleoedd i wella profiad yr ymwelydd trwy wella dehongliad o agweddau hanesyddol a diwylliannol; Datblygu gwybodaeth ac adnoddau sy'n dathlu safleoedd sy'n nodedig yn llenyddiaeth a diwylliant Cymru, ac yn annog parch a dealltwriaeth i'r Gymraeg; Archwilio'r posibilrwydd o lansio cystadleuaeth flynyddol ar gyfer 'Prifddinas Diwylliant Eryri'. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Bwriedir i effaith y polisïau hyn fod yn rhai tymor hir sy’n berthnasol tu allan i’r Parc Cenedlaethol. |
| Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae sawl polisi yn yr adran hon o Gynllun Eryri sy'n anelu at hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol er enghraifft: Polisi B1.1. Ehangu gwaith gyda phartneriaid, gwasanaethau iechyd a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus trwy gynlluniau rhagnodi cymdeithasol; Polisi B1.2: Hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella llesiant pobl; Polisi B1.3: Cynllunio prosiect cymunedol sy'n archwilio'r berthynas hir, ddwyochrog rhwng pobl Eryri a'r tir; Polisi B2.1. Creu cynllun a chanolbwyntio adnoddau ar hyrwyddo, datblygu a chynnal a chadw llwybrau pellter hir wedi'u marcio'n dda, llwybrau hygyrch, llwybrau aml-ddefnyddiwr (yn enwedig llwybrau beicio a llwybrau beicio mynydd), llwybrau a chysylltiadau a dolenni wedi'u hyrwyddo rhwng trefi a phentrefi; Polisi B2.2. Sicrhau bod gwaith Hawliau Tramwy yn cael ei flaenoriaethu'n effeithiol a bod cyfrifoldebau a safonau'n glir, gyda'r APCE yn canolbwyntio ei |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | adnoddau a'i gyllid ar lwybrau aml-ddefnyddiwr a llwybrau'r ucheldir; Polisi B2.3. Gwella cyfleoedd mynediad i bobl anabl a grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol; Polisi B4.1. Gwella cynaliadwyedd ac argaeledd trafnidiaeth i ymwelwyr a thrigolion a mynd i'r afael â phroblemau parcio ac ati.<br><br>Bwriedir i'r holl bolisïau a chamau gweithredu cysylltiedig gael effaith yn y Parc Cenedlaethol ac yn allanol, er bod 'cymuned' trwy ddiffiniad yn golygu'r rhai yn y lle cyntaf sy'n preswylio o fewn y PC. |
| Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r economi leol. | + | ++ | ++ | + | ++ | ++ | Parhaol | Isel | Mae Canlyniad B4 'sefydliadau a chymunedau yn gweithio gyda'i gilydd i ddatblygu a gweithredu opsiynau arloesol ac integredig ar gyfer parcio a thrafnidiaeth gynaliadwy' yn targedu'r amcan hwn yn benodol.<br><br>Nod polisïau yw: gwella cynaliadwyedd ac argaeledd trafnidiaeth i ymwelwyr a thrigolion a mynd i'r afael â phroblemau parcio; ac Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Trwy ganolbwyntio ar y rhanbarth cyfan, mae'r canlyniad hwn yn bwriadu cael effaith tymor hir ar draws y rhanbarth cyfan. |
| Cynorthwyo i greu cyfleoedd cyflogaeth lleol a busnesau sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Mae'r amcan hwn yn berthnasol i'r adran nesaf o Ganlyniadau sy'n ymwneud â'n dyletswydd statudol. |
| Gwella'r sylfaen sgiliau leol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Polisi B1.2: Hyrwyddo a galluogi ystod amrywiol o weithgareddau sy'n gwella llesiant pobl - mae'n cynnwys cyfres o gamau gweithredu sy'n darparu ac yn hwyluso cyfleoedd ar gyfer gwirfoddoli, dysgu ac uwchsgilio. Mae hyn wedi'i ffocysu yn y Parc Cenedlaethol ond bwriedir iddo gael cwmpas ehangach ledled Gogledd Cymru. Bwriedir i'r elfennau hyn gael eu cynnig a'u cyflawni trwy weithio'n gryf mewn Partneriaeth. |
| Darparu cyfleoedd dysgu. | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | Parhaol | Isel | Gweler uchod yn ogystal â Chanlyniad B3, sy'n darparu sawl cyfle i addysgu trigolion ac ymwelwyr i lefel uwch yn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae hon yn ymgyrch gyson i'r mwyafrif o adrannau yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol a thrwy gyflawni ein dibenion craidd, rydym bob amser yn ceisio |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu. Mae'r amcan hwn wrth wraidd popeth a wnawn mewn unrhyw rôl sy'n wynebu'r cyhoedd yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac felly mae'n cael ei blethu trwy'r mwyafrif o'r Canlyniadau yng Nghynllun Eryri. |

**Cymuned ac Economi Eryri - Canlyniad hirdymor: Mae Eryri yn lle gwych i fyw, datblygu a gweithio (Dyletswydd y Parc Cenedlaethol)**

| **Amcan AoG** | **Graddfa** | | | | | | **Parhauster** | **Lefel Ansicrwydd** | **Sylwadau/Argymhellion** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Effaith ym Mharc Cenedlaethol Eryri | | | Rhanbarthol/ trawsffiniol | | | | | |
| | Tymor byr (<5 bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Tymor byr (<5bl) | Tymor canolig (5-10bl) | Tymor hir (>10bl) | Dros dro / parhaol | Isel/ canolig/ uchel | |
| Rheoli effeithiau newid yn yr hinsawdd trwy liniaru ac addasu | 0 | + | + | 0 | + | + | Parhaol | Isel | Er nad yw'n uniongyrchol berthnasol i'r Amcan AoG hwn, mae sawl cam yn y rhan hon o Gynllun Eryri sy'n anelu at gynnwys mesurau lliniaru yn y gymuned fel: Polisi C4.2 Gweithio gyda chymunedau i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol ymhellach; Polisi C3.3. Trwy'r CDLl, creu polisïau sy'n annog cartrefi cynaliadwy; a Pholisi C2.2. Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, cyflogaeth a busnes sy'n gysylltiedig â neu'n ategu |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | pwrpas 1af y Parc Cenedlaethol a Rhinweddau Arbennig gan gynnwys sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd.<br>Bwriad y rhain yw cael effaith tymor canolig-hir a gweithio y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol yn ogystal ag oddi mewn iddo. |
| Sicrhau bod lleoliad a dyluniad datblygiad newydd yn dderbyniol o ran canlyniadau llifogydd posibl | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Amddiffyn a gwella cymeriad ac ansawdd y dirwedd. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Amddiffyn a gwella ansawdd aer. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Gwarchod ansawdd pridd trwy leihau halogiad ac amddiffyn swyddogaeth y pridd. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Diogelu daeareg a geomorffoleg y Parc Cenedlaethol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Cenedlaethol, er enghraifft Polisi C4.2 Gweithio gyda chymunedau i wella dealltwriaeth bellach o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.<br>Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal byddai Daeareg a Geomorffoleg yn cael eu hyrwyddo ac felly'n cael eu deall yn fanylach gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol.<br>Er bod yr amcan yn canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol yn benodol, y gobaith fyddai y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Amddiffyn a gwella bioamrywiaeth. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, er enghraifft Polisi C4.2 Gweithio gyda chymunedau i wella dealltwriaeth bellach o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal byddai bioamrywiaeth yn cael ei hyrwyddo ac felly'n cael ei deall yn fanylach gan |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol.<br>Y gobaith yw y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Gwerthfawrogi ac amddiffyn amgylchedd hanesyddol gan gynnwys treftadaeth adeiledig, archaeoleg a thirwedd hanesyddol | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, er enghraifft Polisi C4.2 Gweithio gyda chymunedau i wella dealltwriaeth bellach o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Fel un o Rinweddau Arbennig craidd yr ardal byddai Tirweddau Hanesyddol yn cael eu hyrwyddo ac felly'n cael eu deall yn fanylach gan drigolion ac ymwelwyr fel ei gilydd. Dylai hyn gael effaith ar ddiogelu'r nodwedd bwysig hon o'r Parc Cenedlaethol. Er bod yr amcan yn canolbwyntio ar y Parc Cenedlaethol yn benodol, y gobaith fyddai y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn berthnasol y tu allan i ffin y PC.<br>Y gobaith yw y byddai gwell dealltwriaeth o nodweddion fel y rhain hefyd yn |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | berthnasol y tu allan i ffin y PC. |
| Diogelu a gwarchod amrywiaeth a nodweddion unigryw lleol, gan gynnwys cymeriad y treflun. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Gweler uchod |
| Cadw, hyrwyddo a gwella treftadaeth ddiwylliannol Eryri a'r Gymraeg. | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | Parhaol | Isel | Mae Cynllun Eryri yn amlinellu nifer o bolisïau sy'n helpu i wella dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol - pob un ohonynt yn seiliedig ar wybodaeth leol, treftadaeth ddiwylliannol a'r Gymraeg.<br><br>Yn benodol, mae canlyniad C1: Iaith, diwylliant a threftadaeth Eryri yn cael ei ddathlu, ei gefnogi a'i gryfhau, ac mae ei bolisïau cysylltiedig yn sicrhau cyflawni'r Amcan AoG hwn yn uniongyrchol.<br><br>Mae hon yn thema sy'n rhedeg trwy'r holl gamau gweithredu addysgol a hyrwyddo yn y Cynllun Rheoli.<br><br>Gan fod hon yn nodwedd mor annatod o'r rhanbarth, mae hyn yn cael effaith ar draws gogledd orllewin Cymru ac ymhell i ddwyrain y wlad hefyd. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Mae'r Gymraeg ei hun yn egwyddor arweiniol sy'n rhedeg trwy ddatblygiad y Cynllun hwn. |
| Diogelu ansawdd a swm adnoddau dŵr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Hyrwyddo dulliau o leihau gwastraff cymaint â phosibl, a chynyddu ailddefnyddio ac ailgylchu. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG.<br><br>Fodd bynnag, gyda'r ffocws cynyddol ar nodau newid ymddygiad yng Nghanlyniad B3 a'i bolisïau sy'n deillio o hynny, yn ogystal â Pholisi B4.2. i 'Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach' y gobaith yw y byddai hyn yn cael effaith ar ymddygiad o ran byw'n gynaliadwy yn gyffredinol. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol gan y cyhoedd | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae Canlyniad C1 a C4 yn delio'n benodol â'r Amcan AoG hwn, gan dargedu nifer o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.<br>Mae'r holl bolisïau cysylltiedig yn sicrhau bod Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol yn parhau i fod wrth wraidd popeth a wnawn. Ymhellach, bwriedir i hyn gael effaith lawer ehangach nag o fewn ffiniau'r PC. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo dealltwriaeth o’r ffactorau sy’n cyfrannu at newid yn yr hinsawdd a gweithredoedd cymunedol unigol i liniaru’r effeithiau ac i addasu. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae sawl polisi yn yr adran hon o Gynllun Eryri yn cyfrannu at yr Amcan AoG hwn, er enghraifft Polisi C4.2 Gweithio bywyd chymunedau i wella ffordd o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol; Polisi C3.3. Trwy'r CDLl creu polisïau sy'n annog cartrefi cynaliadwy; a Pholisi C2.2. Cefnogi a hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi, cyflogaeth a busnes sy'n gysylltiedig â neu'n ategu pwrpas 1af y Parc Cenedlaethol a Rhinweddau Arbennig gan gynnwys sectorau sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd. Bwriad y rhain yw cael effaith tymor canolig-hir a gweithio y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol yn ogystal ag oddi mewn iddo. |
| Hyrwyddo dealltwriaeth, gwerthfawrogiad a mwynhad o’r iaith a’r dreftadaeth ddiwylliannol yn ei ystyr ehangaf. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Yr Amcan hwn yw craidd Canlyniad C1, lle mae polisïau a gweithredoedd cysylltiedig yn anelu at: Hyrwyddo dealltwriaeth, mwynhad ac amddiffyniad o'r iaith a diwylliant Cymraeg; Darparu cyfleoedd i ddysgwyr Cymru yn yr ardal; ac Amddiffyn enwau lleoedd Cymreig.<br><br>Bwriedir i effaith y polisïau hyn fod yn dymor hir a hefyd yn berthnasol tu allan i'r Parc Cenedlaethol. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol. | ++ | ++ | ++ | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae'r holl Ganlyniadau a Pholisïau yn yr adran hon o'r Cynllun yn anelu at hyrwyddo a hwyluso gwell cyfranogiad cymunedol, gan mai dyma ddyletswydd statudol y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae'r polisïau a'r camau gweithredu a amlinellir yma yn cyflawni'r Amcan AoG hwn.<br><br>Bwriedir i'r holl bolisïau a chamau gweithredu cysylltiedig gael effaith yn y Parc Cenedlaethol ac yn allanol, er bod 'cymuned' trwy ddiffiniad yn golygu'r rhai yn y lle cyntaf sy'n preswylio o fewn y PC. |
| Hyrwyddo cysylltiadau trafnidiaeth da i gefnogi'r economi leol. | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | Isel | Nid oes cysylltiad clir rhwng yr amcanion yn yr adran hon o Gynllun Eryri a'r Amcan AoG. |
| Cynorthwyo i greu cyfleoedd cyflogaeth lleol a busnesau sy'n gysylltiedig â phwrpasau'r Parc Cenedlaethol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Canlyniad C2. Mae gan bobl gyfle i ymgartrefu yn yr ardal o ganlyniad i gyfleoedd gwaith a busnes o ansawdd uchel sy'n gysylltiedig â'r amgylchedd a Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol - mae'n cynnwys nifer o fesurau sydd wedi'u cynllunio i hyrwyddo arallgyfeirio cyfleoedd busnes yn enwedig yn y sector TG; cefnogi cyfleoedd sy'n ymwneud â phwrpasau 1af |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | ac 2il y PC, ac annog uwchsgilio cymunedau lleol.<br><br>Bwriad y rhain yw cael effaith tymor canolig-hir a gweithio y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol yn ogystal ag oddi mewn iddo. |
| Gwella'r sylfaen sgiliau leol. | + | + | + | + | + | + | Parhaol | Isel | Mae polisïau sy'n ymwneud â'r Canlyniad uchod yn benodol i uwchsgilio cymunedau lleol megis: Annog a chefnogi datblygiad busnesau a sgiliau sy'n ymwneud â darparu cynlluniau nwyddau cyhoeddus; Cefnogi datblygiad adnoddau a sgiliau ar gyfer atgyweirio a chynnal a chadw adeiladau a nodweddion hanesyddol, gan gynnwys rhaglenni meithrin gallu; Gweithio gyda'r adrannau datblygu economaidd yn y cynghorau lleol i ddatblygu cyfleoedd; Cynyddu nifer yr hyfforddwyr awyr agored sy'n siarad Cymraeg yn y sector awyr agored. Hefyd o dan Ganlyniad C4 mae gweithred benodol i 'Gefnogi uwchsgilio cymunedau sy'n dymuno datblygu prosiectau sy'n amddiffyn ac yn gwella rhinweddau arbennig Eryri'. Felly mae'r Amcan AoG hwn wedi'i gynnwys yn dda yng Nghynllun Eryri. |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | Trwy ddull Partneriaeth, bwriad y mesurau hyn yw bod yn rhai tymor hir a chael effaith y tu allan i ffiniau'r Parc. |
| Darparu cyfleoedd dysgu. | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | ++ | Parhaol | Isel | Gweler uchod yn ogystal â Chanlyniad C1 & C4, sy'n darparu sawl cyfle i addysgu trigolion ac ymwelwyr i lefel uwch yn Rhinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol.<br>Mae hon yn ymgyrch gyson i'r mwyafrif o adrannau yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol a thrwy gyflawni ein dibenion craidd, rydym bob amser yn ceisio darparu cyfleoedd ar gyfer dysgu.<br>Mae'r amcan hwn wrth wraidd popeth a wnawn mewn unrhyw rôl sy'n wynebu'r cyhoedd yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac felly mae'n cael ei blethu trwy'r mwyafrif o Ganlyniadau yng Nghynllun Eryri. |

# Atodiad F: Asesiad Effeithiau Cronnus

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Bioamrywiaeth, fflora a ffawna | Positif | **Effeithiau cronnol positif ar adnoddau bio-amrywiaeth o ganlyniad i nifer o bolisïau yn ceisio amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol y Parc Cenedlaethol.**<br><br>Canlyniad A2: Mae bioamrywiaeth yn cael ei gynnal a'i wella, tra bod gwytnwch ecosystemau'n cynyddu - mae wedi'i neilltuo'n llwyr i wella statws a chyflwr safleoedd cadwraeth natur, gan amddiffyn ansawdd dŵr, ansawdd aer ac osgoi halogi priddoedd. Mae ystod amrywiol o gynefinoedd a rhywogaethau ar draws y Parc Cenedlaethol sy'n cael eu gwarchod gan ddeddfwriaeth a'r rhai nad ydynt yn cael eu gwarchod. Dylai cydnabod yr angen i amddiffyn cysylltedd cynefinoedd gynorthwyo i addasu rhywogaethau i newid yn yr hinsawdd yn y tymor hir. Efallai y bydd buddion bioamrywiaeth anuniongyrchol hefyd yn cael eu cynnig gan y Canlyniadau eraill, er enghraifft, Canlyniad A1. Mae unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden ar y Parc Cenedlaethol yn cael eu lleihau; gallai hefyd helpu i amddiffyn adnoddau. Yn yr un modd, gallai'r ffocws ar y cyd ar gynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol helpu i gynyddu dealltwriaeth a hefyd gwerthfawrogiad ehangach o'r angen i ofalu am amgylchedd y Parc ac arwain at newid tymor hir mewn gweithredoedd unigol.<br><br>Bydd buddion cronnus hefyd gyda'r CDLl sy'n cynnwys nifer o bolisïau llym sy'n ceisio amddiffyn adnoddau bioamrywiaeth y Parc Cenedlaethol. | Poblogaeth, iechyd dynol, adnoddau dwr, ansawdd aer, tirwedd, ffactorau hinsoddol, economi, daeareg a phridd, asedau materol, treftadaeth ddiwylliannol, economi a thai. | Dim angen mesurau lliniaru. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Ansawdd Aer | Positif | **Positif yn y tymor hir, oherwydd y ffocws ar dwristiaeth a thrafnidiaeth gynaliadwy, adfer, ehangu a gwella gwydnwch a chymysgedd rhywogaethau coed a choetiroedd brodorol, priddoedd a mawn.**<br><br>Mae trafnidiaeth yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol. Er gwaethaf y ddibyniaeth uchel ar y car yn y Parc Cenedlaethol, mae ansawdd yr aer yn dda. Mae gweithredu opsiynau trafnidiaeth gynaliadwy yn ffactor allweddol yng Nghynllun Eryri, gweler Polisi A3.1.<br><br>Canlyniad A3: Rydym yn barod ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd - a bydd gwneud hyn yn benodol trwy leihau carbon, lliniaru a chynlluniau storio a dal a storio carbon, oll yn effeithio'n anuniongyrchol ar ansawdd aer mewn ffordd gadarnhaol.<br><br>Yn ogystal, gallai'r ffocws ar wella mynediad at wasanaethau lleol, datblygu seilwaith TGCh a datblygu cysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus helpu i hyrwyddo 'newid moddol' yn y Parc Cenedlaethol, gan fod o fudd i ansawdd aer yn y tymor hir. | Bioamrywiaeth, fflora, ffawna, iechyd dynol, poblogaeth, economi, tai, pridd, dŵr | Bydd gweithio ar y cyd â darparwyr trafnidiaeth gyhoeddus ar draws y Parc Cenedlaethol yn bwysig er mwyn sicrhau bod systemau trafnidiaeth effeithiol ar waith ar gyfer trigolion ac ymwelwyr.<br><br>Bydd gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyllido i sicrhau bod buddsoddiad yn cyrraedd y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, cynefinoedd a thargedau rhywogaethau Adran 7, yn flaenoriaeth. |
| Ffactorau Hinsoddol | Positif | **Effeithiau positif oherwydd y ffocws cryf drwy Gynllun Eryri ar yr angen i liniaru ac addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd.**<br><br>Mae Canlyniadau A1 - A7 i gyd yn canolbwyntio ar effeithiau a strategaethau lliniaru i baratoi ar gyfer Newid Hinsawdd. Gyda'i gilydd, dylai'r nodau hyn helpu i sicrhau bod y Parc Cenedlaethol yn gweithio tuag at fesurau addasu a lliniaru priodol. Mae ymrwymiad clir o | Bioamrywiaeth, fflora a ffawna, adnoddau dŵr, poblogaeth, iechyd pobl, priddoedd, economi, tai, treftadaeth ddiwylliannol, ansawdd aer. | Bydd angen gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyllido i sicrhau y gellir darparu adnoddau a chynnal pob prosiect.<br>Bydd gweithio mewn partneriaeth yn allweddol i sicrhau |

| **Pwnc Derbynnydd** | **Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral)** | **Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl** | **Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill** | **Lliniaru** |
|---|---|---|---|---|
| | | fewn Cynllun Eryri i weithio gyda rhanddeiliaid a sefydliadau eraill i godi ymwybyddiaeth a dylai hyn wneud cyflawni amcanion a chanlyniadau o'r fath yn fwy tebygol.<br>Mae Canlyniad A3 a'i bolisïau cysylltiedig yn canolbwyntio'n benodol ar leihau carbon a chynlluniau storio a dal carbon yn y Parc Cenedlaethol er mwyn amddiffyn a lliniaru rhag newid yn yr hinsawdd.<br>Mae Polisi A3.3 yn tynnu sylw at gamau penodol i ymchwilio i fethodoleg Mynegai Bregusrwydd Hinsawdd i'w chymhwyso i asedau'r Parc Cenedlaethol. | | bod llawer o'r prosiectau a amlinellir yng Nghynllun Eryri yn cael eu gweithredu. |
| Adnoddau Dŵr | Positif | **Mae ffocws yng Nghynllun Eryri ar ddefnydd cynaliadwy o adnoddau dŵr a diogelu a gwella ansawdd dŵr.**<br><br>Mae polisïau penodol yng Nghynllun Eryri sy’n mynd i’r afael â diogelu a rheoli adnoddau dŵr, e.e. Polisi A2.3: Sicrhau bod ansawdd dŵr a'r amgylchedd morol yn cael ei gynnal a'i wella. Cynigir buddion anuniongyrchol gan bolisïau eraill hefyd, er enghraifft Polisi A3.2: Diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri - sy'n mynd i'r afael ag ansawdd y pridd ac sy'n ceisio hyrwyddo rheolaeth tir sympathetig er budd adnoddau pridd ond a fydd hefyd o fudd anuniongyrchol i ansawdd dŵr a’i ddefnydd.<br><br>Gallai fod buddion cronnus gyda'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (WFD), gan fod y ddau gynllun yn ceisio hyrwyddo'r defnydd mwy effeithlon o adnoddau dŵr a hefyd gyda'r polisïau yn y CDLl sy'n ceisio amddiffyn ansawdd dŵr. | Bioamrywiaeth, fflora a ffawna iechyd pobl, tai, economi, poblogaeth, asedau materol, ansawdd aer, treftadaeth ddiwylliannol, priddoedd. | Mae llawer o brosiectau yn dibynnu ar gyllid allanol a grwpiau cymunedol gwirfoddol. Bydd gwneud y mwyaf o botensial cyllido a sicrhau cynaliadwyedd prosiectau cymunedol yn flaenoriaeth. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Daeareg a Phriddoedd | Positif | **Ymrwymiad clir o fewn CRhPC o'r angen i amddiffyn a gwella geoamrywiaeth.**<br><br>Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys cyfoeth o ddaeareg a geomorffoleg ac mae yna nifer o SSSIs daearegol a RIGS. Polisi A7.8. Amddiffyn a gwella Safleoedd Daearegol a Geomorffig sy'n Bwysig yn Rhanbarthol (RIGS) a geoamrywiaeth gyffredinol - mae'n canolbwyntio'n benodol ar amddiffyn a gwella RIGS a geoamrywiaeth gyffredinol yn y Parc Cenedlaethol. Mae'n debygol hefyd y bydd buddion anuniongyrchol yn gysylltiedig â Pholisi A7.3 a Chanlyniadau B2 - B5 sy'n ceisio amddiffyn cymeriad ac ansawdd y dirwedd.<br><br>Dylai'r ffocws cyffredinol yng Nghynllun Eryri ar godi ymwybyddiaeth a gwella dehongliad o'r Rhinweddau Arbennig wneud mwy o unigolion yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn a gwella geoamrywiaeth yn y Parc Cenedlaethol a beth mae geoamrywiaeth yn ei olygu a'i bwysigrwydd.<br><br>Mae'r CDLl ac amrywiol CCAau hefyd yn ategu'r elfennau hyn o Gynllun Eryri. | Adnoddau dŵr, bioamrywiaeth, fflora a ffawna, tirwedd, treftadaeth ddiwylliannol, asedau materol. | Dim angen mesurau lliniaru |
| Asedau Materol (gan gynnwys gwastraff ac adnoddau naturiol) | Positif | **Mae nifer o Ganlyniadau yng Nghynllun Eryri sy'n mynd i'r afael â sefydlu prosiectau rheoli gwastraff cynaliadwy a lleihau teithio mewn car preifat a hyrwyddo dulliau trafnidiaeth cynaliadwy.**<br><br>Gyda'i gilydd, dylai'r camau a gynigir yng Nghynllun Eryri helpu i amddiffyn asedau materol yn y Parc Cenedlaethol. Gobeithir y bydd y ffocws cynyddol ar nodau newid ymddygiad yng Nghanlyniad B3 a'i | Bioamrywiaeth, fflora a ffawna treftadaeth ddiwylliannol, tirwedd, tai, priddoedd a daeareg, adnoddau dŵr. | Dim angen mesurau lliniaru. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | bolisïau sy'n deillio o hynny, yn ogystal â 'pholisi B4.2' i 'Archwilio a gweithredu cyfleoedd i annog trafnidiaeth wyrddach' yn cael effaith ar ymddygiad o ran byw'n gynaliadwy yn gyffredinol.<br><br>Mae'r rhwydwaith trafnidiaeth ar draws y Parc Cenedlaethol eisoes yn profi problemau tagfeydd mewn rhai lleoliadau (yn aml mae hwn yn fater tymhorol sy'n waeth yn ystod misoedd yr haf) a gallai unrhyw gynnydd mewn datblygiad yn y dyfodol roi straen pellach ar y rhwydwaith. Fodd bynnag, dylai Canlyniadau A1, A5, A7, B4 a B5 weithio gyda'i gilydd yn gronnus i leihau'r defnydd o geir preifat a hyrwyddo dulliau cludo mwy cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol. Yn yr un modd, gallai'r gwaith ymgysylltu a chynnwys a gynigiwyd trwy Gynllun Eryri trwy godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol helpu i annog newid graddol mewn ymddygiad a dewisiadau teithio ac felly cofnodwyd effeithiau cronnus cadarnhaol.<br><br>Aethpwyd i'r afael â materion yn ymwneud ag adnoddau dŵr a phriddoedd mewn rhesi ar wahân yn y tabl hwn. | | |
| Poblogaeth ac iechyd pobl | Positif | **Mae ymrwymiad clir drwy Gynllun Eryri i amddiffyn a gwella'r amgylchedd naturiol, gan wella hygyrchedd gwasanaethau a mwynderau lleol i bob sector o'r boblogaeth. Mae ystod o ffactorau yn effeithio ar iechyd ac felly dylai fod buddion cronnus hirdymor i'r grŵp derbynyddion hwn.**<br><br>Gyda'i gilydd, bydd y Canlyniadau yng Nghynllun Eryri sy'n ceisio amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol y | Holl bynciau Cyfarwyddeb AAS, tai, amddifadedd a'r amgylchedd byw. | Dim angen mesurau lliniaru. |

| **Pwnc Derbynnydd** | **Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral)** | **Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl** | **Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill** | **Lliniaru** |
|---|---|---|---|---|
| | | Parc Cenedlaethol o fudd i iechyd dynol trigolion yn y Parc Cenedlaethol. Mae'r adran Canlyniadau yn yr Amgylchedd (A1 - A7) hefyd yn bwysig iawn wrth iddynt geisio mynd i'r afael â'r bygythiad tymor hir a achosir gan newid yn yr hinsawdd a hyrwyddo mecanweithiau y gellir eu defnyddio ar draws y Parc Cenedlaethol i gynyddu gwytnwch ei amgylchedd a'i drigolion i'r bygythiadau hyn.<br>Mae hygyrchedd swyddi a gwasanaethau yn fater allweddol yn y Parc Cenedlaethol a bydd hyfywedd gwasanaethau gwledig fel siopau, Swyddfeydd Post ac ysgolion yn hanfodol i sicrhau bod cymunedau'n parhau i fod yn fywiog yn y tymor hir. Er bod y CDLl yn canolbwyntio ar ddatblygu a defnyddio tir ar draws y Parc, ceir Canlyniadau yng Nghynllun Eryri a fydd yn ategu polisïau'r CDLl, gan gynnwys Canlyniadau C1 - C4. Mae'r Canlyniadau hyn yn mynd i'r afael â hygyrchedd gwasanaethau a chyflogaeth ond maent hefyd yn ymwneud â chyfleoedd cyflogaeth newydd, er enghraifft, trwy fynd ar drywydd busnesau mewn ynni adnewyddadwy, busnesau newydd, gofod cydweithredu ayb.<br>Mae pwyslais clir drwy Gynllun Eryri ar lesiant, gan sicrhau bod y Parc Cenedlaethol a'i adnoddau yn hygyrch i bob sector o'r gymdeithas ac yn adeiladu ar yr ysbryd cymunedol presennol a'i ddatblygu ymhellach. Gyda'i gilydd, dylai hyn gyfrannu'n gadarnhaol at sefydlu ymdeimlad o le a chynnal a datblygu cydlyniant cymunedol yn y Parc Cenedlaethol. | | |
| Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth | Positif | **Mae nifer o Amcanion Strategol yng Nghynllun Eryri sy'n ceisio amddiffyn a gwella adnoddau treftadaeth ddiwylliannol. Mae ffocws clir ar** | Amgylchedd byw, tirwedd, economi, tai, bioamrywiaeth, treflun, | Mae llawer o brosiectau yn dibynnu ar gyllid allanol a grwpiau |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| bensaernïol ac archeolegol | | **amddiffyn amrywiaeth a hynodrwydd y Parc Cenedlaethol a'i Rinweddau Arbennig.**<br><br>Mae Canlyniad A6 a'i bolisïau cysylltiedig yn mynd i'r afael yn benodol â diogelu Treftadaeth Ddiwylliannol a'r Amgylchedd Hanesyddol. Mae A5 ac A7 hefyd yn cynnwys Treftadaeth Ddiwylliannol yn eu strategaethau amddiffyn.<br>Mae canlyniadau B3 a C1 yn mynd i'r afael â hyrwyddo hunaniaeth ddiwylliannol a, gyda'i gilydd, maent yn debygol o fod o fudd i adnoddau treftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol. Bydd y Canlyniadau sy'n ymdrin ag ansawdd a chymeriad y dirwedd hefyd o fudd i'r adnoddau treftadaeth gan fod cyflwr asedau hanesyddol yn cael effaith uniongyrchol ar ansawdd y dirwedd.<br>Mae Cynllun Eryri hefyd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol y Parc Cenedlaethol trwy ddatblygu mentrau sy'n hyrwyddo iaith ac asedau treftadaeth anghyffyrddadwy, a thrwy godi ymwybyddiaeth ar draws y Parc, gallai fod ymdeimlad cynyddol o stiwardiaeth a balchder ymhlith trigolion y Parc Cenedlaethol.<br>Dylai'r ffocws cyffredinol yng Nghynllun Eryri ar godi ymwybyddiaeth a gwella dehongliad o'r Rhinweddau Arbennig wneud mwy o unigolion yn ymwybodol o'r angen i amddiffyn a gwella Treftadaeth Ddiwylliannol gan gynnwys treftadaeth bensaernïol ac archeolegol. | priddoedd, ansawdd aer, asedau materol. | cymunedol gwirfoddol. Bydd gwneud y mwyaf o botensial cyllido a sicrhau cynaliadwyedd prosiectau cymunedol yn flaenoriaeth. |
| Tirwedd a Threflun | Positif | **Ceisia Cynllun Eryri amddiffyn a gwella pob agwedd ar yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn y Parc Cenedlaethol a ddylai fod o fudd i'r dirwedd / treflun.** | Bioamrywiaeth, treftadaeth ddiwylliannol, amgylchedd byw, adnoddau dŵr, ansawdd aer, asedau materol. | Dim angen mesurau lliniaru. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | Ceir nifer o Amcanion Strategol sy'n ceisio amddiffyn a gwella amrywiaeth a hynodrwydd y Parc Cenedlaethol ac mae angen cydnabyddedig i'r dirwedd esblygu mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion Confensiwn Tirwedd Ewrop.<br><br>Ceir prosiectau penodol o fewn Cynllun Eryri sy'n tynnu sylw at y camau hyn - er enghraifft Polisi A6.3, sy'n sicrhau bod Menter Treftadaeth Treflun Dolgellau yn cael ei chwblhau ac yn ystyried defnyddio mecanweithiau tebyg mewn rhannau eraill o'r Parc.<br><br>Mae pob agwedd ar y dirwedd a'r ffactorau sy'n effeithio arni yn cael eu hystyried yng Nghynllun Eryri gan gynnwys materion fel llonyddwch a llygredd golau. Dylai'r codi ymwybyddiaeth a gynigir trwy'r Cynllun a'r ffocws ar gynyddu dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol helpu i annog patrymau dylunio a datblygu mwy cynaliadwy yn y Parc Cenedlaethol a allai ategu'r polisïau tirwedd yn y CDLl. | | |
| Economi | Niwtral ond gallai fod yn bositif yn y tymor hir | **Nid yw Cynllun Eryri yn canolbwyntio ar ddyrannu tir nac ar ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd. Fodd bynnag, gallai fod rhai buddion cronnus anuniongyrchol o ganlyniad i weithredu'r CRhPC.**<br><br>Gallai'r Canlyniadau sy'n ymdrin â'n hamgylchedd a newid yn yr hinsawdd gynnig cyfleoedd newydd i'r Parc Cenedlaethol trwy helpu i annog busnesau newydd yn seiliedig ar gynlluniau Nwyddau Cyhoeddus a mentrau trafnidiaeth gynaliadwy er enghraifft.<br><br>Gallai'r Canlyniadau sy'n ymdrin â hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer deall a mwynhau wella mynediad i'r Parc | Poblogaeth, iechyd pobl, yr amgylchedd byw ac amddifadedd, pob agwedd ar yr amgylchedd naturiol. | Dim angen mesurau lliniaru. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | Cenedlaethol a chreu mwy o gyfleoedd gwaith hamdden, yn enwedig mewn perthynas â thwristiaeth gynaliadwy.<br><br>Mae Canlyniad C2 yn amlinellu'r dull Partneriaeth sydd ei angen i gefnogi a hyrwyddo hyfforddiant, cyflogaeth a chyfleoedd busnes yn yr ardal. | | |
| Tai | Niwtral | **Ymdrinnir ag anghenion tai a dyraniad tir ar gyfer tai yn y Parc Cenedlaethol yn y CDLl. Ystyrir ei bod yn annhebygol y byddai effeithiau cronnus sylweddol ar dai ar draws y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i weithredu Cynllun Eryri.**<br><br>Er bod Canlyniad C3 yn ceisio hyrwyddo mecanweithiau a fydd yn annog tai i ddiwallu angen lleol, ystyrir y bydd hyn yn ategu'r camau presennol a nodwyd yn y CDLl. | Amddifadedd a'r amgylchedd byw, iechyd pobl, poblogaeth. | Dim angen lliniaru |
| Amddifadedd a'r Amgylchedd Byw | Positif | **Ceisia Cynllun Eryri godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol, gan amddiffyn a gwella amgylchedd naturiol ac adeiledig y Parc. Gyda'i gilydd, dylai'r Canlyniadau yng Nghynllun Eryri wella ansawdd bywyd trigolion y Parc Cenedlaethol.**<br><br>Mae Canlyniadau C1 - C4 yn tynnu sylw at yr angen i ddatblygu busnesau bach a chanolig, yr angen am dai sy'n diwallu anghenion lleol, cyfranogiad cymunedol gwell a chymunedau diogel sy'n cael eu gwasanaethu gan drafnidiaeth gyhoeddus dda a chyfleoedd hamdden. Gyda'i gilydd, dylai gweithredu'r Canlyniadau hyn helpu i godi'r amgylchedd byw yn y Parc Cenedlaethol yn y tymor hir. | Poblogaeth, iechyd pobl, tai, asedau materol, yr holl bynciau amgylcheddol. | Ni nodwyd unrhyw fesurau lliniaru penodol. |

| Pwnc Derbynnydd | Effaith Gronnol Debygol (Positif, Negyddol, Niwtral) | Sylwadau a Chyfeiriad at Bolisïau Eraill y CDLl | Cysylltiadau â Phynciau Derbynnydd eraill | Lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| | | Mae ansawdd yr amgylchedd naturiol yn ffactor allweddol sy'n effeithio ar ansawdd bywyd a dylai'r Canlyniadau helpu i amddiffyn a gwella'r amgylchedd a hefyd annog pawb sy'n byw yn y Parc i fabwysiadu agwedd debyg at adnoddau naturiol o ansawdd uchel. | | |
| Addysg a Chymwysterau | Niwtral | **Drwy Cynllun Eryri ceir ffocws ar godi ymwybyddiaeth a darparu cyfleoedd dysgu. Fodd bynnag, ni ystyrir ei bod yn debygol y bydd newidiadau cronnus sylweddol i gyrhaeddiad addysgol yn y Parc Cenedlaethol o ganlyniad i'w weithredu, ond yn hytrach mwy o ymwybyddiaeth o faterion sy'n berthnasol i amgylchedd y Parc Cenedlaethol.**<br><br>Ceir nifer o Ganlyniadau yng Nghynllun Eryri sy'n tynnu sylw at yr angen am well dealltwriaeth o Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol a mwy o ymwybyddiaeth o rai o'r materion allweddol sy'n wynebu'r Parc, fel newid yn yr hinsawdd. Mae'r gwaith a fydd yn cael ei wneud fel rhan o Gynllun Eryri, felly, yn creu cyfleoedd ar gyfer dysgu anffurfiol yn y Parc Cenedlaethol ac o bosibl ar draws ardal ehangach yn dibynnu ar lwyddiant cynigion CRhPC mewn datblygu cyfranogiad rhanddeiliaid.<br>Mae Canlyniad B3 yn darparu sawl cyfle i addysgu trigolion ac ymwelwyr i lefel uwch am Rinweddau Arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae’r amcan hwn wrth wraidd popeth a wnawn mewn unrhyw rôl sy’n wynebu’r cyhoedd yn Awdurdod y Parc Cenedlaethol ac felly mae’n cael ei blethu trwy’r mwyafrif o Ganlyniadau yng Nghynllun Eryri. | Poblogaeth, amddifadedd a'r amgylchedd byw, iechyd pobl a phob agwedd ar yr amgylchedd naturiol. | Nid oes angen mesurau lliniaru. |